# Cyflwr Chwarae

## Adolygiad o Ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored yng Nghymru a Chynllun Grant Chwarae 2000

**Marianne Mannello a June Statham**

**Tachwedd 2000**

# Cynnwys

| **Pennod** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| Crynodeb Gweithredol o'r Adroddiad | | 2 |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored yng Nghymru | 10 |
| 3 | Cydweithio | 17 |
| 4 | Effaith Cynllun Grant Chwarae 2000 | 23 |
| 5 | Cyllid ac Adnoddau | 29 |

6 Materion ac Argymhellion 35

Cyfeiriadau 39

Atodiad 1 Trosolwg o Gynigion Grant Chwarae 2000 40

# Cyflwr Chwarae: adolygiad o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru a Chynllun Grant Chwarae 2000

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Yr Astudiaeth

Cafodd yr adroddiad hwn ei gyllido gan gynllun Grant Chwarae 2000. Mae'n adrodd ar astudiaeth o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd ym mis Awst 2000 o awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol yn ymwneud â chwarae ledled Cymru. Ategwyd hyn gan ddadansoddiad o gynigion grant Chwarae 2000, ffurflenni dychwelyd grant a chynlluniau Partneriaeth Plant a Ieuenctid, a gyda chyfweliadau gyda unigolion allweddol.

### Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae 'yn ymddygiad a ddewisir yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol a'i gymell yn reddfol sy'n ymrwymo'r plentyn'. Mae ymwybyddiaeth gynyddol, a gefnogir gan dystiolaeth ymchwil, fod chwarae yn rhan sylfaenol a chyfannol o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond ar gyfer y cymdeithasau y maent yn byw ynddynt hefyd. Mae ymchwil niwrofiolegol yn awgrymu y gall profiadau chwarae cynnar fod ag effaith sy'n para ar ddatblygiad plant a'u gallu i ddysgu yn nes ymlaen. Mae chwarae hefyd yn cadw plant yn iach ac actif, yn datblygu sgiliau cymdeithasol a hyder, cynorthwyo plant i ddelio gyda stres, a gall ostwng troseddu a fandaliaeth ymysg ieuenctid. Mae darpariaeth chwarae yn meithrin ymdeimlad o gymuned a gall wella cynhwysiant cymdeithasol.

### Cyfrifoldeb am chwarae

Mae gan chwarae le yng nghyfrifoldebau llawer o adrannau, ond nid oes ganddo gartref yn yr un

ohonynt. Ar lefel awdurdod lleol a hefyd lefel y Cynulliad, ychydig o gydlynu neu ddatblygiad strategol fu ar ddarpariaeth chwarae, er fod rhai awdurdodau yn awr yn dechrau datblygu polisïau a strategaethau chwarae sirol. Mae mwyafrif y gwasanaethau chwarae wedi'u lleoli yn adran Gwasanaethau Hamdden yr awdurdod lleol ond gall yr adrannau Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Cynllunio, Parciau a Phriffyrdd a Gwasanaethau Technegol oll fod â rhan. Mae niferoedd cynyddol o awdurdodau yn mabwysiadu strwythur rheolaeth arddull gorfforaethol/ cabinet, ond nid yw'n glir eto os y bydd hyn yn arwain at ddynesiad mwy cydlynus at ddarpariaeth chwarae.

**Darpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru**

Mae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn darparu amrediad eang o gyfleoedd chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau, sesiynau chwarae y tu allan i'r ysgol, clybiau ieuenctid iau, meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae, clybiau gwaith cartref, ardaloedd chwarae sefydlog a darpariaeth chwarae symudol. Fodd bynnag mae amrywiaeth eang yn y ddarpariaeth chwarae sydd ar gael ledled Cymru.

Dangosodd yr arolwg fod bron i 2,000 o ardaloedd chwarae (gydag offer sefydlog) a bron i 4000 o gynlluniau chwarae gwyliau ar gael ledled Cymru. Fodd bynnag profodd yn anodd meintoli darpariaeth chwarae oherwydd yr oedd yn beth prin i un adran fod â throsolwg o'r hyn a gynigid ledled yr awdurdod. Mynegwyd rhai pryderon am effaith chwarae mynediad agored ar gyflwyniad rheoliadau Ewropeaidd ar ardaloedd chwarae sefydlog, a thargedu cyllid dan y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol tuag at wasanaethau yn darparu gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Amlygodd yr astudiaeth hon bwysigrwydd strwythurau ar gyfer ymgynghori a chyd-gynllunio darpariaeth chwarae, a'r angen i ganfod ffyrdd i gynnwys pawb gyda diddordeb mewn chwarae. Roedd cefnogaeth i'r syniad o 'ladmerydd chwarae' lleol ym mhob awdurdod, cyn belled ag y medrai'r swydd hon weithio o fewn strwythur clir ac ymrwymiad awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth chwarae.

Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig wrth gyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored. Dim ond i gyrff gwirfoddol y mae rhai ffynonellau grant ar gael, a medrant yn aml ddatblygu prosiectau newydd a blaengar sy'n ymateb i anghenion y gymuned. Eto mae llawer o amrywiaeth yn faint o waith partneriaeth sydd rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ledled Cymru. Nid oes rhwydweithiau neu ffora chwarae yn bodoli ym mhob ardal. Lle mae ganddynt gefnogaeth ac adnoddau digonol, medrant roi dull o gynnwys pob parti sydd â diddordeb. Gallodd ffora yn yr arolwg gyda gweithiwr cyflogedig gymryd rhan mwy effeithlon wrth ddosbarthu'r grant Chwarae 2000 a sicrhau yr ymgynghorwyd â phob sefydliad perthnasol.

**Cynllun Grant Chwarae 2000**

Cafodd y £1 miliwn a ddyrannwyd i chwarae mynediad agored yng nghynllun grant Chwarae 2000

ei groesawu'n gynnes gan gyrff statudol a chyrff gwirfoddol fel ei gilydd. Mae’r adroddiad yn disgrifio sut y gwariwyd yr arian a’i effaith dybiedig. Yn ogystal â chynyddu amrediad darpariaeth chwarae, credwyd ei fod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o werth chwarae mynediad agored a galluogi Partneriaethau Plant a Ieuenctid (oedd yn gyfrifol am ddosbarthu’r grant) i ddatblygu neu gadarnhau cysylltiadau gydag asiantaethau a grwpiau gwirfoddol eraill.

Roedd rhai problemau gyda’r cynllun, yn neilltuol yr amserlen fer ar gyfer cyflwyno cynigion a lesteiriodd ymgynghoriad effeithlon, a’r angen i gyllid fod yn fwy hirdymor i ganiatáu i awdurdodau a sefydliadau gwirfoddol i ddatblygu chwarae ar sail gynlluniedig fwy strategol. Fodd bynnag dengys y ffurflenni dychweliad grant fod y cynllun grant Chwarae 2000 yn werth da am arian, gyda llawer o bartneriaethau yn dyrannu’r cyllid yn effeithlon i fod ag effaith greadigol ar gyfleoedd chwarae plant.

**Materion ac argymhellion**

Mae pennod olaf yr adroddiad yn ystyried materion a godwyd gan ganfyddiadau’r astudiaeth, megis mynediad anghyfartal i chwarae, diffyg cydlynu a trosolwg strategol, gwella ansawdd a’r angen am gyllid mwy diogel. Cyflwynir nifer o argymhellion i’w hystyried gan aelodau’r Cynulliad.

## 1. CYFLWYNIAD

> *"Chwarae yw hawl cyntaf y plentyn gan y gymuned. Ni all unrhyw gymuned gyfyngu ar yr hawl hwnnw heb wneud niwed dwfn a pharhaol i feddyliau a chyrff ei holl ddinasyddion".* (Lloyd George, 1926)

1.1 Cyllidwyd yr adroddiad hwn gan gynllun Grant Chwarae 2000. Mae’n adrodd ar astudiaeth o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru, a gynhaliwyd ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Chwarae Cymru a swyddogion y Cynulliad. Nod yr astudiaeth oedd rhoi trosolwg i’r Cynulliad o ‘gyflwr chwarae’ ac yn neilltuol i:

- disgrifio argaeledd darpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru
- disgrifio pa ddefnydd a wnaed o grant Chwarae 2000
- amlygu enghreifftiau o arfer da ac arloesedd
- ymchwilio ffynonellau presennol a darpar ffynonellau cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae
- dynodi materion perthnasol yn gysylltiedig â datblygu cyfleoedd chwarae

1.2 Mae’r adroddiad yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd yn Awst 2000 ymhlith awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol yn ymwneud â chwarae ledled Cymru Ategwyd hyn gan ddadansoddiad o gynigion grant Chwarae 2000, ffurflenni dychwelyd grant a chynlluniau Plant a Ieuenctid; a gyda chyfweliadau gyda unigolion allweddol.

## Beth yw Chwarae?

> *"Mae chwarae yn ymddygiad a ddewisir yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol a'i gymell yn reddfol sy'n ymrwymo'r plentyn."* (Bob Hughes)

1.3 Mae Cyngor Chwarae'r Plant yn rhoi diffiniad ehangach (1998):

> *"Mae chwarae yn rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac yn hollbwysig i'w datblygiad. Dyma'r ffordd y mae plant yn ymchwilio'r byd o'u hamgylch ac yn datblygu ac ymarfer sgiliau. Mae'n hanfodol ar gyfer twf corfforol, emosiynol ac ysbrydol, ar gyfer datblygiad deallusol ac addysgol ac ar gyfer caffael sgiliau ymddygiadol cymdeithasol. Mae chwarae yn derm generig a gymhwysir i ystod eang o weithgareddau sy'n bodloni'r plentyn, yn greadigol i'r plentyn ac a gaiff eu dewis yn rhydd gan y plentyn. Gall chwarae plant fod yn cynnwys offer neu beidio neu fod ag ôl-gynnyrch neu beidio. Mae plant yn chwarae ar ben eu hunain a gydag eraill. Gall eu chwarae fod yn swnllyd ac egniol neu ddistaw a myfyrgar, ysgafn-galon neu ddifrifol iawn."*

1.4 Mae darpariaeth chwarae mynediad agored, a elwir weithiau yn chwarae adloniadol, yn sicrhau fod plant yn dewis eu chwarae yn rhydd, bod amrywiaeth o weithgareddau a dulliau o chwarae ar gael a bod elfennau byrfyfyr a risg.

1.5 Mae gan bob plentyn hawl ac angen i chwarae, ond caiff cyfleoedd i wneud hynny yn aml eu cyfyngu gan ffactorau allanol, megis tlodi, diffyg gofod, amgylcheddau gormesol a chyflyrau cymdeithasol eraill. Mae darpariaeth chwarae mynediad agored yn rhoi un dull i liniaru'r ffactorau hyn.

## Pam fod chwarae yn bwysig?

1.6 Oherwydd mai plant sy'n chwarae fel arfer, ac nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyflawni nodau neu amcanion arbennig, mae canfyddiad cyffredin nad yw'n bwysig mewn gwirionedd, neu o leiaf ddim yn rhywbeth y dylai llywodraethau fod â chonsýrn amdano. Dywedir yn aml mai 'dim ond chwarae' y mae plant. Ond mae ymwybyddiaeth gynyddol, a gefnogir gan dystiolaeth ymchwil, fod chwarae yn rhan sylfaenol a chyfannol o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd i'r cymdeithasau y maent yn byw ynddynt. Caiff llawer o'r dystiolaeth ei chrynhoi yng nghyhoeddiad Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae : 'Best Play: what play provision should do for children' (NFPA 2000).

1.7 Mae plant o fudd i blant mewn llawer ffordd:

**Mae chwarae yn hyrwyddo datblygiad, dysgu, creadigrwydd ac annibyniaeth**

**plant**

Yn ogystal â dysgu sut a pham fod pethau'n gweithio drwy chwarae, mae tystiolaeth o ymchwil niwrofiolegol ddiweddar y gall profiadau chwarae cynnar fod ag effeithiau sy'n para ar ddatblygiad plant a'u gallu i ddysgu yn nes ymlaen. Mae gan blant dan 10 oed o leiaf ddwywaith ddarpariaeth ymennydd bosibl oedolion, ac awgrymir yn awr y gall chwarae mewn plant ifanc fod â rôl hollbwysig wrth fwyhau gallu'r ymennydd. (Hughes, 1999).

**Mae chwarae yn galluogi plant i ddysgu sgiliau cyfathrebu, negydu a gwrando**

Mae sgiliau o'r fath yn cynorthwyo i ddatblygu hunan-dyb a hyder, ac maent yn gysylltiedig gyda'r hyn a elwir yn awr yn 'ddeallusrwydd emosiynol', nodwedd gynyddol bwysig ar gyfer gweithredu llwyddiannus yn y 21ain ganrif (Goleman 1996).

**Mae chwarae'n cadw plant yn iach ac actif**

Ar amser pan fo consýrn cynyddol am ddulliau byw eisteddog plant, gall chwarae corfforol gynyddu lefelau ffitrwydd cyffredinol a hefyd gyfrannu at lesiant emosiynol.

**Mae plant yn meithrin cynhwysiant cymdeithasol**

Mae chwarae'n cynorthwyo plant i ddeall y bobl a'r lleoedd yn eu bywydau, dysgu am eu hamgylchedd a datblygu eu hymdeimlad o gymuned. Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan y llywodraeth yn y Swistir fod diffyg gofodau chwarae lleol yn gwanhau rhwydweithiau cymunedol a llesteirio datblygiad strwythurau cymorth anffurfiol (Huttenmoser a Degen-Zimmerman 1995). Dangosodd gwerthusiad o grwp chwarae antur yng Ngogledd Cymru yn yr un modd fod darpariaeth chwarae yn gymorth i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol (Hill-Tout, Lindsell a Pithouse 1995).

**Mae chwarae'n caniatáu i blentyn ddysgu amdanynt eu hunain, eu galluoedd a'u diddordebau**

Drwy wneud, risgio a methu mewn chwarae, mae plant yn dysgu sut i ddelio gyda'u hamgylchedd ac i ddeall eu galluoedd a'u cyfyngiadau.

(parhad)

**Mae chwarae yn therapiwtig ac yn dda i iechyd meddwl**

Mae'n cynorthwyo plant i ddelio gydag amgylchiadau anodd neu boenus, megis stres emosiynol neu driniaeth feddygol. Canfu'r Sefydliad Iechyd Meddwl (1999) fod llawer o'r nodweddion a hyrwyddwyd gan chwarae, megis sgiliau cyfathrebu, agwedd

gadarnhaol, dynesiad datrys-problem a'r gallu i adfyfyrio, yn gwneud plant yn fwy gwydn yn wyneb digwyddiadau yn achosi stres yn eu bywydau megis tlodi ac anghydfod teuluol.

**Mae chwarae yn rhoi cyfle i blant ddefnyddio eu hegni a chael hwyl**

Yn ogystal â bod yn bwysig i blant eu hunain, mae hyn hefyd yn gostwng stres ar rieni, yn arbennig yn ystod gwyliau hir yr haf, ac yn cynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn amgylchiadau anodd i ymdopi.

**Gall cyfleusterau chwarae cymunedol ostwng troseddu a fandaliaeth ymhlith ieuenctid**

Ymysg prosiectau a archwiliwyd gan Heddlu Dyffryn Tafwys, roedd gosod cyfleusterau chwarae a chysgodfan ieuenctid yn gysylltiedig â gostyngiad sylweddol mewn fandaliaeth a mân droseddu (Hampshire a Wilkinson 1999). Cafwyd canlyniadau tebyg mewn asesiad a gynhaliwyd gan Caerdydd Ddiogelach ar brosiectau yn ardal Llaneirwg.

## Pwy sy'n gyfrifol am chwarae?

1.8 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ym mis Rhagfyr 1991, yn cydnabod pwysigrwydd chwarae i'r plentyn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi datblygu strategaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n nodi y dylai'r Confensiwn 'roi sylfaen egwyddor ar gyfer pob ymwneud gyda phlant'. Dywed Erthygl 31 o'r Confensiwn:

> *"Mae partïon gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau adloniadol priodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau."*

1.9 Mae'r manteision a geir o hyrwyddo chwarae yn torri ar draws cyfrifoldebau llawer o adrannau gwahanol y llywodraeth. Medrai chwarae wneud cyfraniad pwysig i amcanion llawer o gynlluniau'r llywodraeth, megis Cychwyn Cadarn, y Strategaeth Genedlaethol ar Ofal Plant, Plant yn Gyntaf, y Fenter Mynediad Ieuenctid, Canolfannau Byw'n Iach, Gwell Cymru, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac agenda Cynhwysiant Cenedlaethol.

1.10 Fodd bynnag er fod gan chwarae le mewn cyfrifoldebau llawer o adrannau, ni ymddengys fod ganddo gartref yn yr un ohonynt. Er enghraifft, nid oes gan unrhyw un adran o fewn strwythur y Cynulliad gyfrifoldeb clir i arwain at chwarae adloniadol i blant. Yn San Steffan, mae'r cyfrifoldeb cyffredinol gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. O fewn y Cynulliad medrai o leiaf

chwe adran wahanol fod â diddordeb mewn darpariaeth chwarae:

- Yr Adran Plant a Theuluoedd (sy'n gyfrifol am y polisi ar amddiffyn plant, plant y gofelir amdanynt a chefnogaeth deuluol i blant mewn angen. Mae'r rhaglenni perthnasol yn cynnwys Cychwyn Cadarn, y Strategaeth Genedlaethol ar Ofal Plant, Plant yn Gyntaf a'r Gronfa Partneriaeth Plant a Ieuenctid, y gweinyddwyd cynllun Grant Chwarae 2000 drwyddi)
- Yr Adran Tai ac Adnewyddu Cymunedol (cyfrifol am arwain ar raglenni Plant yn Gyntaf a Chynhwysiant Cymdeithasol. Y rhaglenni hyn roddodd y cyllid dechreuol ar gyfer cynllun grantiau Chwarae 2000
- Adran Hybu Iechyd (cyfrifol am wella a hyrwyddo iechyd y genedl, a'r cynllun Canolfannau Byw'n Iach)
- Yr Adran Diwylliant ac Adloniant, o fewn Addysg (cyfrifol am gydlynu gyda adrannau hamdden ac adloniant awdurdodau lleol)
- Adrannau Cynllunio ac Amgylchedd (cyfrifol am bolisi sy'n effeithio ar ddefnydd plant o ofod, megis dylunio strydoedd a datblygiadau tai a chreu amgylcheddau sy'n rhoi cyfleoedd i blant chwarae)
- Uned Gostwng Troseddau (cyfrifol am y cynllun Dinasoedd Iach).

1.11 Nid yw cyfrifoldeb am ddatblygu darpariaeth chwaraeon yn ddim cliriach ar lefel awdurdod lleol. Dan adran 508 Deddf Addysg 1998, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i wneud yn sicr fod y cyfleusterau ar gyfer addysg gynradd, uwchradd a phellach a ddarperir yn eu hardal yn cynnwys cyfleusterau digonol ar gyfer hamdden a hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol. Fodd bynnag mae'n debyg mai'r ddeddfwriaeth fwyaf perthnasol i'r pwer a roddir i awdurdodau lleol yn adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol 1976) i ddarparu cyfleusterau chwarae a hamdden as y gwelant yn dda. Caiff y pwer hwn (nid yw'n ddyletswydd) ei weithredu fel arfer gan yr adrannau Hamdden ac Adloniant.

1.12 Mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, cafodd swyddogaethau a weithredwyd yn draddodiadol gan adrannau ar wahân megis addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a hamdden eu cyfuno mewn strwythur corfforaethol neu gabinet. Ystyriwyd effaith bosibl yr ad-drefnu hwn ar wasanaethau chwarae mynediad agored yn ein harolwg.

1.13 Mae gan sefydliadau gwirfoddol hefyd rôl allweddol mewn datblygu darpariaeth chwarae. Chwarae Cymru/Play Wales yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo chwarae plant yng Nghymru. Mae'n elusen gofrestredig ac yn derbyn grant graidd gan Adran Plant a Theuluoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Prif rôl Chwarae Cymru yw dylanwadu ar bolisi, cynllunio strategol ac ymarfer pob asiantaeth, sefydliad ac unigolyn sydd â diddordeb yn a chyfrifoldeb dros chwarae plant.

1.14 Mae Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae (NPFA) yn sefydliad sy'n gweithio i ddiogelu a gwella caeau chwarae, meysydd chwarae a gofodau chwarae ar gyfer plant o bob oedran. Bu'n weithgar yn Llundain ers amser maith, ac mae'n ddiweddar wedi sefydlu swyddfa yng Nghymru gyda chyllid gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol.

1.15 Ar lefel leol, mae Rhwydweithiau Chwarae neu Ffora Chwarae yn amcanu i ddod ynghyd â phawb yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol sydd â diddordeb mewn chwarae. Fodd bynnag nid oes fforwm ar gyfer pob ardal o Gymru. Dim ond chwech o'r 22 awdurdod yn ein harolwg ddywedodd fod fforwm chwarae yn weithgar yn eu hardal, a dangosodd ymholiadau ffôn fod o leiaf ddwy wedi rhoi'r gorau i weithredu mewn blynyddoedd diweddar.

## Cynllun Grant Chwarae 2000

1.16 Ym mis Mai 2000 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd fwriad y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu £1m ar gyfer pwrpas gwella cyfleusterau chwarae mynediad agored i blant mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001. Cafodd cyllid ei ddosbarthu a'i reoli drwy'r Partneriaethau Plant a Ieuenctid ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd y swm a dderbyniodd pob un ei gyfrif ar sail nifer y plant yn y boblogaeth a dangosyddion difreintiad, ac amrywient o £14,600 (Ceredigion) i dros £130,000 (Caerdydd).

1.17 Bwriedid i gyllid fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Difreintiad – ateb yr angen am wella darpariaeth chwarae mynediad agored yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
- Cynaliadwyedd – cyn belled ag sy'n bosibl, dylai grantiau fod wedi eu hanelu at gynhyrchu newid cynaliadwy ac annog ffyrdd newydd o weithio.
- Partneriaeth ac adfywio cymunedol – dylai dosbarthiad a gweinyddiaeth cyllid gael ei gynllunio a'i arolygu drwy drefniadau partneriaeth a all sicrhau sensitifrwydd i angen lleol.

1.18 Disgwyliwyd i Bartneriaethau Plant a Ieuenctid ddarparu adroddiad ar sut y gwariwyd y grant a thystiolaeth o'i effaith er mwyn trwytho penderfyniadau am gyllido gan y Cynulliad yn y dyfodol.

## Astudiaeth o chwarae yng Nghymru

1.19 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o ddarpariaeth chwarae mynediad agored yng Nghymru fel rhan o gynllun grant Chwarae 2000. Ef yw'r ymgais gyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i fapio argaeledd chwarae ar sail genedlaethol, ac mae wedi annog cyrff eraill megis Bwrdd Chwarae Gogledd Iwerddon i lobio eu Cynulliad i ddilyn enghraifft Cymru.

1.20 Cynlluniwyd dwy ddogfen arolwg ar gyfer darparwyr gwasanaethau chwarae plant. Anfonwyd un fersiwn at Gyfarwyddwyr Adrannau Hamdden pob un o'r 22 awdurdod, gyda chopi at y Prif Weithredwyr. Anfonwyd y fersiwn arall at 14 Ffora Chwarae/Rhwydwaith Chwarae gwirfoddol, a ddynodwyd o gronfa ddata Chwarae Cymru. Roedd sawl rhwydwaith yn cwmpasu mwy nag un awdurdod yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996.

1.21 Yn y ddau awdurdod nad oedd yn ymddangos fod ganddynt rwydwaith/ffora a enwyd, anfonwyd yr holiadur yn hytrach at y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) lleol. Cafwyd

gwybodaeth ychwanegol gan gynrychiolwyr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol pan y'u ffoniwyd i'w hatgoffa am yr angen i ddychwelyd yr holiadur.

1.22 Ar ôl sawl nodyn atgoffa, derbyniwyd ymateb gan bob un o'r 22 awdurdod lleol a gan 9 o'r sefydliadau gwirfoddol. Nid oedd dau fforwm yn weithgar mwyach, roedd tri yn methu llenwi'r holiadur oherwydd iddi gyrraedd yn ystod cyfnod prysur yr haf pan oedd staff yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac yna'n cymryd eu gwyliau eu hunain, a theimlai un CVS na fedrai ateb y cwestiynau'n foddhaol gan mai ychydig o wybodaeth o gyfleusterau chwarae plant oedd ganddo.

1.23 Cafwyd gwybodaeth hefyd o ddadansoddiad o'r ffurflenni grant a ddychwelwyd gan bob un o'r 22 Partneriaeth Plant a Ieuenctid yn adrodd sut y gwariwyd grant Chwarae 2000, ac o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Hamdden, Cynghorau Cymuned, yr Heddlu, cyrff cyllido perthnasol a Chwarae Cymru.

1.24 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar chwarae plant o'r arolwg a'r ffynonellau eraill hyn. Disgrifir enghreifftiau o arfer da neu flaengar mewn blychau tywyll o fewn y testun. Mae'r bennod olaf yn ystyried materion a godwyd gan y canfyddiadau, ac yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan Aelodau'r Cynulliad.

## 2. DARPARIAETH CHWARAE MYNEDIAD AGORED YNG NGHYMRU

### Beth sydd ar gael?

2.1 Mae awdurdodau lleol a darparwyr sector gwirfoddol yn rhoi amrediad amrywiol o gyfleoedd chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau , sesiynau chwarae ar ôl yr ysgol, clybiau ieuenctid iau, meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae, clybiau gwaith cartref, ardaloedd chwarae sefydlog a darpariaeth chwarae symudol.

2.2 Dangosodd dadansoddiad o raglenni Cronfa Partneriaeth Plant a Ieuenctid i'r mwyafrif (17 allan o 22) nodi elfennau chwarae yn eu cynlluniau, hyd yn oed cyn y cyhoeddwyd cynllun grant Chwarae 2000. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau celfyddydol a drama, rhaglenni awyr agored a chwaraeon, gweithgareddau penwythnos a gwyliau, clybiau/canolfannau ieuenctid a meysydd chwarae antur. Ymysg y syniadau mwyaf blaengar oedd rhaglenni o gampau stryd, caffes cyber a chyflogi ceidwad parc.

2.3 Er fod ystod eang o ddarpariaeth chwarae yng Nghymru, bu'n anodd ei feintoli. Mae hyn yn rhannol oherwydd fod darpariaeth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn wrth i asiantaethau ymdrechu i ateb anghenion newidiol plant a chymunedau mewn gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag y prif reswm oedd fod chwarae yn rhan o bortffolio cynifer o wahanol isadrannau ac adrannau awdurdodau lleol, ac anaml yr oedd gan unrhyw un drosolwg cyflawn. Adroddodd sawl awdurdod iddynt ei chael yn anodd i lenwi'r holiadur yn gywir oherwydd nad oedd yr wybodaeth berthnasol ganddynt, ac ni chafodd pob holiadur ei ddychwelyd wedi'i lenwi'n gyflawn. Dangoswyd yr anawsterau gan ymateb un awdurdod oedd wedi llwyddo rhoi adroddiad cynhwysfawr:

*Roedd yr holiadur yn gofyn am ateb cyfansawdd a gafodd ei gywain maes o law gan Wasanaethau Hamdden, Adloniant, Addysg Gymunedol, y Bartneriaeth Plant a Ieuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol a'n Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.*

2.4 Achoswyd anawsterau wrth gasglu gwybodaeth hefyd oherwydd y cynhaliwyd yr arolwg dros gyfnod gwyliau'r haf.

2.5 Mae llawer o grwpiau gwirfoddol sy'n cynnig rhyw fath o ddarpariaeth chwarae yn gwneud hynny ar ben eu hunain ac efallai nad ydynt yn ymwybodol o rwydweithiau cefnogaeth, a vice versa. Dangosodd cyfweliadau ffôn y gall fod mwy o gyfleoedd chwarae a ddarperir gan grwpiau lleol ar gael i blant nag a ddynodwyd yn yr arolwg. Yn ychwanegol, dim ond yn ddiweddar y daeth llawer o'r personél a gyfrannodd at lenwi'r holiadur yn gyfrifol am chwarae plant ac nid oeddent o reidrwydd yn gwybod am yr amrediad darpariaeth.

2.6 Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae'r adolygiad yn gam cyntaf pwysig wrth asesu argaeledd darpariaeth chwarae ledled Cymru ac wrth godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae. Mae'n galonogol fod sawl Partneriaeth Plant a Ieuenctid wedi dyrannu peth o grant Chwarae 2000 i gynnal archwiliadau dwys o ddarpariaeth chwarae a gofod chwarae yn eu hawdurdod lleol. Pe bai eraill yn gwneud yr un fath, medrid cael darlun llawer mwy cynhwysfawr o ddarpariaeth chwarae ar draws y wlad.

2.7 Gofynnodd yr arolwg i awdurdodau lleol a rhwydweithiau gwirfoddol i lenwi tabl yn nodi'r nifer o enghreifftiau oedd ganddynt o wyth math penodol o ddarpariaeth chwarae, gyda gofod i restru unrhyw gategorïau eraill. Gofynnwyd iddynt nodi ystod oedran defnyddwyr ac os oedd y safleoedd yn cael eu harolygu ai peidio. Rhoddir y canlyniadau ar wahân yn Nhabl 2.1 ar gyfer awdurdodau lleol a rhwydweithiau gwirfoddol – er y medrant fod yn cyfeirio at yr un ddarpariaeth mewn rhai achosion.

**Tabl 2.1: Argaeledd chwarae mynediad agored**

| Math darpariaeth | Nifer safleoedd | |
|---|---|---|
| | AALl | Nifer |
| Ardaloedd chwarae (offer sefydlog) | 1847 | 0 |
| Cynlluniau chwarae gwyliau | 313 | 85 |

| | | |
|---|---|---|
| Sesiynau chwarae ar ôl ysgol | 169 | 41 |
| Clybiau ieuenctid iau | 72 | 14 |
| Clybiau gwaith cartref | 30 | 17 |
| Canolfannau chwarae | 10 | 0 |
| Sesiynau chwarae llyfrgell * | 9 | 0 |
| Darpariaeth chwarae symudol | 8 | 34 |
| Chwarae canolfan hamdden * | 3 | 0 |
| Maes chwarae antur | 2 | 0 |
| Llyfrgell teganau * <br><br> * categori a ychwanegwyd gan ymatebwyr | 1 | 2 |

2.8 Mae angen bod yn ofalus wrth drin yr wybodaeth hon oherwydd yr oedd yn glir o'u hymatebion fod llawer o awdurdodau yn gwybod y darperid cyfleusterau ond ni fedrent roi rhifau, ac ni chynrychiolwyd y sector gwirfoddol ym mhob awdurdod. Mae'n rhan o natur chwarae y gall darpariaeth newid o flwyddyn i flwyddyn, fel mai dim ond ciplun ar unrhyw amser arbennig a roddir gan unrhyw arolwg.

2.9 Soniwyd amlaf am feysydd chwarae (ardaloedd chwarae gydag offer sefydlog), gyda bron i ddwy fil o enghreifftiau ar draws Cymru, pob un ohonynt heb arolygaeth.

2.10 Rhyngddynt dywedodd awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol fod bron i 400 o gynlluniau chwarae gwyliau, cynnydd sylweddol ar y ffigur o 284 cynllun chwarae oedd wedi cofrestru gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn 1994 (Statham et al, 1996). Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau chwarae hyn ar agor i blant rhwng 5 a 11 neu 14, ond nid oedd rhai yn derbyn plant nes eu bod yn wyth oed, mae'n debyg oherwydd fod hyn yn osgoi'r gofyniad i gael eu cofrestru gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ddeddf Plant 1989.

2.11 Roedd y sector statudol a'r sector gwirfoddol yn darparu sesiynau chwarae ar ôl ysgol, yn bennaf ar gyfer plant oedran ysgol gynradd (5-11). Roedd y ddau sector hefyd yn darparu clybiau

ieuenctid iau a chlybiau gwaith cartref oedd yn darparu'n bennaf ar gyfer plant yn ychydig flynyddoedd cynnar ysgol uwchradd, er fod rhai clybiau ieuenctid iau ar agor i blant o wyth oed ymlaen.

2.12 Ychydig o ymatebion a gafwyd i gategorïau 'canolfan chwarae'neu 'faes chwarae antur' a dim o'r sector gwirfoddol er y gwyddys fod y sector gwirfoddol yn gwneud cyfraniad pwysig yn yr ardal, er enghraifft The Venture yn Wrecsam. Roedd gan y sector gwirfoddol gynrychiolaeth arbennig o dda wrth ddarparu cyfleusterau chwarae symudol: sefydliadau gwirfoddol oedd yn darparu dros dri chwarter y 42 gwasanaeth symudol a nodwyd.

2.13 Mathau eraill o ddarpariaeth chwarae mynediad agored a ychwanegwyd i'r rhestr gan ymatebwyr awdurdodau lleol oedd sesiynau chwarae llyfrgell (9), chwarae canolfannau hamdden (3) a llyfrgelloedd teganau (1 awdurdod lleol, 2 sector gwirfoddol). Mae'n debyg y byddai'r ffigurau hyn wedi cynyddu pe bai'r categorïau ar gael i bob ymatebydd eu ticio.

2.14 Oherwydd yr anfonwyd yr holiadur i gyfarwyddwyr adrannau hamdden i ddechrau, ar ardaloedd chwarae sefydlog y cafwyd yr wybodaeth fwyaf cyflawn. Ni wyddai pawb a ymatebodd am ddarpariaeth asiantaethau ac adrannau eraill, a nid oedd yn ymddangos fod y strwythurau trefniadol (nac efallai amser) ar gyfer ymgynghori a chael darlun llawn.

2.15 Fodd bynnag, un o fanteision y cynllun grant Chwarae 2000 a'i ffordd y'i dosbarthwyd drwy Bartneriaethau Plant a Ieuenctid oedd dechrau ehangu'r ddirnadaeth o chwarae. Fel y dywedodd un Cyfarwyddydd Hamdden a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth:

> *'Mae wedi cynorthwyo i symud agweddau ymaith o'r syniad nad yw chwarae i blant ond yn ymwneud â meysydd chwarae sefydlog'.*

## Dynodi'r angen am ddarpariaeth chwarae

2.16 Gofynnwyd i awdurdodau lleol os oeddent yn cynllunio darpariaeth chwarae ar sail angen a ddynodwyd ai peidio, ac os felly drwy ba ddull y mesurid ac yr asesid angen. Dywedodd ychydig dros hanner (12/22) eu bod yn gwneud hynny, er i rai ddweud mai dim ond ynghylch rhai mathau arbennig o ddarpariaeth megis ardaloedd chwarae sefydlog yr oedd hyn, neu mai dim ond dechrau oeddent i gynllunio ar sail angen. Ni wnaeth chwech, ac nid oedd y pedwar arall yn gwybod neu ni roddwyd unrhyw wybodaeth.

2.17 Mae tabl 2.2 yn dangos y dulliau a ddefnyddiodd awdurdodau lleol i ddynodi angen. Roedd y ddau fwyaf cyffredin, a ddefnyddid yn aml gyda'i gilydd, yn golygu cymhwyso gwahanol fynegai o ddifreintiad i dargedu darpariaeth ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a defnyddio ffigurau poblogaeth blant i amcangyfrif angen (er enghraifft ardal chwarae ar gyfer pob 250 o blant). Rhoddodd awdurdodau hefyd ystyriaeth i farn y cyhoedd a sefydliadau gwirfoddol drwy gyfarfodydd ymgynghori, arolygon, a gohebiaeth neu a gwynion a dderbyniwyd.

*"Mae cymunedau'n dweud wrth yr Awdurdod os yw'r ddarpariaeth yn wael a bod problemau'n gysylltiedig gyda phlant yn chwarae mewn lleoedd annigonol neu'n achosi anghytgord cymdeithasol".*

**Tabl 2.2 Dynodi'r angen am ddarpariaeth chwarae**

| **Sail asesiad** | **ALl** |
|---|---|
| Poblogaeth plant | 7 |
| Mynegai difreintiad | 7 |
| Ymgynghoriad (cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol) | 5 |
| Arall | 4 |

2.18 Roedd y meini prawf eraill a nodwyd wrth gynllunio darpariaeth chwarae yn cynnwys agosatrwydd at gyfleusterau chwarae eraill, y cyfle i gael budd cynllunio, gofynion cynllunio ar gyfer gofodau agored a phwysau gan wleidyddion lleol (nodwyd unwaith yr un).

2.19 Gofynnwyd yr un cwestiwn yn yr arolwg sector gwirfoddol. Dangosodd ymatebion gan ffora chwarae eu bod yn bennaf yn dynodi angen drwy ymwybyddiaeth o'r hyn oedd ar gael yn lleol a'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud eu bod angen:

*"Rydym yn datblygu darpariaeth lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd a bod diddordeb gan bobl leol"* (cynrychiolydd fforwm chwarae).

## Sicrhau ansawdd

2.20 Mae set gydnabyddedig o werthoedd ac egwyddorion am blant a chwarae o fewn y proffesiwn gwaith chwarae (Fforwm Chwarae Cymru Gyfan/Chwarae Cymru 1995, NPFA 2000). Maent yn cynnwys (addaswyd o 'Seven Play Objectives', NPFA 2000).

- Mae'r ddarpariaeth yn ymestyn y dewis a'r rheolaeth sydd gan blant dros eu chwarae, y rhyddid y maent yn ei fwynhau a'r boddhad a gânt ohono
- Mae'r ddarpariaeth yn cydnabod angen y plant i brofi ffiniau ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r angen hwnnw
- Mae'r ddarpariaeth yn llwyddo i gydbwyso rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag anaf
- Mae'r ddarpariaeth yn mwyhau'r amrediad o gyfleoedd chwarae
- Mae'r ddarpariaeth yn meithrin annibyniaeth a hunan-dyb
- Mae'r ddarpariaeth yn meithrin parch plant at eraill ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol
- Mae'r ddarpariaeth yn meithrin lles, twf iach a datblygiad, gwybodaeth a dealltwriaeth, creadigrwydd a gallu plant i ddysgu.
- Mae'r ddarpariaeth yn rhoi cyfle i ddarparwyr weithio mewn partneriaeth gydag eraill i gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae.
- Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfle i ymgynghori gyda defnyddwyr a rhoi rhan iddynt mewn cynllunio.

2.21 Fodd bynnag mae mecanweithiau sicrwydd ansawdd cyfredol ar gyfer darpariaeth chwarae yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, materion cyfle cyfartal ac (yng nghyswllt offer chwarae sefydlog) ofynion gofod agored a deddfwriaeth Ewropeaidd.

2.22 Mae'r deunyddiau asesu ansawdd newydd sy'n cael eu datblygu gan Chwarae Cymru (gweler y blwch) yn trafod gwerthoedd sylfaenol gwaith chwarae a phroses a chyflwyniad chwarae mynediad agored. Mae cynllun peilot yng Nghaerdydd ar gynllun Chwarae Cymru, ac mae'n gam pwysig wrth ddatblygu arfer da mewn darpariaeth chwarae.

**Enghraifft: Prosiect Asesu Ansawdd Chwarae Cymru**

Mae gan Chware Cymru gynllun peilot ar gyfer system asesu ansawdd ac mae'n gobeithio y daw'n "farc barcud ansawdd Cymreig" a gaiff ei gydnabod gan weithwyr chwarae, rhieni, cyrff cyllido, swyddogion cofrestru gofal dydd a'r llywodraeth. Datblygwyd y prosiect gan weithwyr chwarae ar gyfer gweithwyr chwarae, a bydd yn galluogi unigolion a phrosiectau chwarae i asesu drostynt eu hunain y cyfleoedd chwarae y maent yn eu cynnig i blant. Mae'n arloesol gan ei fod yn canolbwyntio'n gyntaf ac yn bennaf ar y plentyn a'u hanghenion chwarae, ac yn amcanu i ddatblygu dealltwriaeth o chwarae a sut i greu amgylchedd cyfoethog ar gyfer plant fydd yn eu hannog i brofi'r llu o agweddau gwahanol o chwarae. Bwriedir iddo ategu gweithdrefnau asesu presennol sy'n canolbwyntio mwy ar agweddau iechyd a diogelwch ansawdd. Lluniwyd lefelau sylfaenol a chanolraddol y cynllun asesu eisoes ac mae Chwarae Cymru'n gweithio gyda choleg Casnewydd i ddatblygu gradd mewn gwaith chwarae. Mae'r sefydliad yn gobeithio cael cyllid Ewropeaidd hefyd i gefnogi defnyddio'r deunyddiau mewn rhaglenni magu plant.

2.23 Ni chaiff dynesiad Chwarae Cymru at asesu ansawdd ei ddefnyddio'n eang hyd yma. Pan ofynnwyd i awdurdodau lleol yn yr arolwg os oedd ganddynt system ar gyfer mesur ansawdd, dywedodd 13 fod ganddynt, nid oedd gan 8 (neu ddim eto), a roedd un yn ansicr.

2.24 Roedd y rhan fwyaf o'r systemau hyn yn canolbwyntio ar ddiogelwch mewn ardaloedd chwarae sefydlog, ac yn cynnwys archwiliadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni safonau neilltuol. Defnyddiodd awdurdodau amrywiaeth o wahanol safonau, yn cynnwys BS EN 177 (5 awdurdod) a safonau Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae (6). Roedd dau awdurdod wedi datblygu eu system raddio eu hunain, megis y gofyniad "dylai fod pum peth yn y maes chwarae sy'n rhoi pum gwahanol brofiad o symudiad'.

2.25 Roedd y mecanweithiau sicrwydd ansawdd eraill a nodwyd gan yr awdurdodau yn cynnwys cofrestru ac archwiliad cynlluniau chwarae gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol, arolygon a ffurflenni gwerthuso wedi'u llenwi gan ddefnyddwyr chwarae, a sicrhau fod gan staff hyfforddiant a chymwysterau priodol.

2.26 Os oedd darpariaeth yn disgyn dan safonau derbyniol, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ei drwsio neu ei wella, ond nid oedd bob amser ddigon o gyllid i wneud hyn ac yn y rhan fwyaf dywedodd awdurdodau eu bod wedi gorfod datgymalu offer neu gau meysydd chwarae y dyfarnwyd eu bod yn anniogel.

2.27 Tra bod y rhan fwyaf o ymatebion yn yr arolwg awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar gynnal safonau mewn meysydd chwarae sefydlog, roedd sefydliadau gwirfoddol yn fwy tebygol i sôn am ffyrdd o geisio monitro ansawdd mewn darpariaeth megis cynlluniau chwarae ac i wneud hynny mewn ffordd gefnogol.

**Enghraifft: Cefnogaeth cymheiriaid**

Mae cyllid gan Cyngor Cymdeithasau Gwirfoddol Cymru yn galluogi Cymdeithas Chwarae Brycheiniog ym Mhowys i gynnig hyfforddiant i'r holl weithwyr chwarae,a gafodd effaith gadarnhaol amlwg ar ansawdd. Pan oedd un cynllun chwarae yn cynnig darpariaeth o safon amheus, trefnodd y rhwydwaith i ddau o weithwyr profiadol o gynllun arall dreulio amser yn y prosiect a rhannu eu profiad. Bydd aelodau rhwydwaith hefyd yn ymweld â chynlluniau a gwneud awgrymiadau lle bo angen.

## Materion mewn darparu chwarae

2.28 Mae tabl 2.3 yn rhestru'r prif faterion a ddynododd awdurdodau lleol fod angen eu trafod i wella cyfleoedd chwarae yn eu hardal. Soniwyd yn gyson am ddau fater sef sicrhau cyllid digonol, yn arbennig ar sail tymor hwy; a datblygu strategaeth chwarae a dynesiad mwy cydlynus at chwarae. Ymchwilir y rhain yn fanylach ym mhennod 3 a phennod 5 yr adroddiad hwn.

| **Tabl 2.3: Prif faterion i ddarparwyr chwarae ALl** | |
|---|---|
| **Mater** | **ALl** |
| Cyllid ac adnoddau | 15 |
| Cydlynu a chynllunio strategol | 10 |
| Trafod gofynion diogelwch ac uwchraddio | 7 |
| Diffinio chwarae mynediad agored a chodi ymwybyddiaeth | 3 |
| Sefydlu fforwm chwarae | 3 |
| Hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr cynllun chwarae | 2 |
| Dosbarthiad anwastad o gyfleusterau chwarae | 2 |
| Hyrwyddo 'perchnogaeth gymunedol' o chwarae | 2 |

2.29 Roedd consýrn cyffredinol am uwchraddio meysydd chwarae presennol i gydymffurfio gyda'r safonau diogelwch newydd yn gysylltiedig â'r angen am gyllid. Mynegodd un aelod o'r Fforwm Rheolwyr Parciau hyn yn gryf:

> "*Mae'r rhaglen adolygu Gwerth Gorau a deddfwriaeth Ewropeaidd yn gysylltiedig gyda meysydd chwarae yn faich ariannol sydd angen ei gyllido. Mae awdurdodau yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i symud offer, ac mae'n awr lawer o feysydd chwarae sy'n hollol foel o ran offer maes chwarae. Rhennir consýrn y bydd plant yn ddieithriad yn chwarae mewn man arall a medrai hyn gynnwys lleoedd sy'n llawer mwy peryglus na phlant yn defnyddio meysydd chwarae a ddarperir gan yr awdurdod lleol.*"

2.30 Materion eraill i awdurdodau lleol oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth o werth chwarae mynediad agored a beth a olygai, i ddarparu gwell hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr chwarae,

a sefydlu fforwm chwarae yn eu hardal.

2.31 Roedd ymatebion gan y sector gwirfoddol yn amlygu pryderon tebygol. Y ddau fater o'r consýrn mwyaf i ffora chwarae oedd yr angen i ddatblygu strategaeth chwarae oedd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, a sicrhau cyllid gwell a mwy diogel.

## 3. CYDWEITHIO

3.1 Mae'r bennod hon yn cyfuno gwybodaeth o arolwg o awdurdodau lleol a ffora chwarae a gwybodaeth gan Bartneriaethau Plant a Ieuenctid am sut y dyrannwyd grant Chwarae 2000, i edrych ar i ba raddau y mae gwahanol asiantaethau yn cydweithio i hyrwyddo chwarae plant.

## Cymryd y blaen ar chwarae

3.2 Er mwyn cael dynesiad cydlynus at ddatblygu darpariaeth chwarae, mae angen diffinio'r cyfrifoldeb am ddod â'r gwahanol chwaraewyr ynghyd. Pan ofynnwyd yn yr arolwg pa adran sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am gynllunio a rheoli cyfleusterau chwarae mynediad agored, enwodd mwyafrif yr awdurdodau (15/22) yr adran Hamdden, neu adran yn cyfuno hamdden, chwarae a/ neu wasanaethau cymunedol.

3.3 Fodd bynnag ni fedrai pob awdurdod lleol ateb y cwestiwn hwn, ac ychwanegodd rhai a wnaeth fod y cyfrifoldeb yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth. Er enghraifft, fel arfer byddai cynlluniau chwarae a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod yn dod dan wasanaethau hamdden, ond adrannau gwasanaethau cymdeithasol fyddai'n bennaf gyfrifol am gofrestru ac archwilio cynlluniau chwarae grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Yn aml roedd sesiynau chwarae ar ôl yr ysgol (yn cynnwys celfyddydau a chwaraeon) a chlybiau gwaith cartref wedi'u trefnu gan yr adran addysg, tra dywedwyd fod hamdden, tai, cynllunio, parciau, priffyrdd a gwasanaethau technegol yn gyfrifol am ardaloedd chwarae sefydlog.

3.4 Dengys Tabl 3.1 y nifer o weithiau y nodwyd fod gan wahanol adrannau beth cyfrifoldeb dros ddarpariaeth chwarae, yn cynnwys bod yn adran arweiniol. Medrir gweld i fwy na hanner yr awdurdodau sôn am hamdden/gwasanaethau cymunedol, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Lle cyllidwyd darpariaeth chwarae drwy fudd cynllunio (cytundebau gyda datblygwyr), yna medrai adrannau eraill megis cynllunio, priffyrdd, amgylcheddol a thai hefyd fod yn gysylltiedig.

**Adran 3.1: Adrannau ALl gyda pheth cyfrifoldeb dros chwarae**

| Adran | ALl |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Hamdden/gwasanaethau cymunedol | 21 |
| Addysg | 17 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 12 |
| Cynllunio | 9 |
| Tai | 7 |
| Parciau a Phriffyrdd | 4 |
| Gwasanaethau Technegol/Eiddo a Gweithiau | 4 |
| Prif Weithredwr/Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmer | 2 |

## Effaith ad-drefnu awdurdodau lleol

3.5 Roedd 18 o'r 22 awdurdod un ai wedi aildrefnu i strwythur gorfforaethol/cabinet neu wedi penderfynu gwneud hynny yn y dyfodol agos, a dau arall yn cynnal trafodaethau am hyn. Y newid mwyaf cyffredin oedd uno adrannau hamdden, gwasanaethau cymunedol ac addysg. Medrai hyn fod ag effaith ar ddarpariaeth chwarae, felly gofynnwyd i awdurdodau lleol os y digwyddodd hynny.

3.6 Ni fedrodd y rhan fwyaf ddynodi unrhyw effaith neilltuol o ad-drefnu, un ai oherwydd y teimlent na fu unrhyw newid neu oherwydd ei bod yn rhy gynnar i ddweud. Awgrymodd y tri awdurdod a gredai y bu rhyw effaith fod ad-drefnu wedi arwain at well cydlynu ar reolaeth a darpariaeth, gweithio corfforaethol mwy strategol a 'mwy o ymwybyddiaeth o fater angen yn erbyn cost'.

3.7 Mae hyn yn golygu fod gan fabwysiadu strwythur corfforaethol botensial ar gyfer dynesiad mwy strategol at ddarpariaeth chwarae. Fodd bynnag mewn man arall yn yr arolwg awdurdodau lleol a hefyd yn yr arolwg o ffora gwirfoddol, awgrymwyd fod cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored wedi ei dorri ers uniad gydag adrannau addysg, efallai oherwydd y rhoddwyd blaenoriaeth is i wasanaethau 'an-statudol' megis chwarae.

## Gweithio gydag asiantaethau eraill

3.8 Nid dim ond adrannau o fewn awdurdod sydd angen cydweithio i ddatblygu dynesiad cydlynus at chwarae. Gwnaeth y cyfarwyddyd a roddwyd i awdurdodau lleol yn cynnig dan y cynllun Grant

Chwarae 2000 hi’n glir y dylid llunio cynigion ar sail am-asiantaeth. Dylai’r cynllun:

> *"adeiladu ar drefniadau cydweithredol presennol ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael o’u hasesiadau a chynllluniau. Bydd y rheini’n cynnwys archwiliadau troseddau ac anrhefn lleol, cynlluniau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant, cynlluniau gwasanaethau plant, cynlluniau strategol addysgol a drafft raglenni gwella iechyd grwpiau iechyd lleol"* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000).

**Tabl 3.2: Gweithio gydag asiantaethau eraill**

| | **ALl** |
|---|---|
| Sector gwirfoddol | 18 |
| Cymdeithasau tai | 12 |
| Heddlu | 7 |
| Cynghorau cymuned/lleol * | 4 |
| Partneriaethau/ffora * | 4 |
| Gwasanaethau iechyd | 3 |

* Categori a ychwanegwyd gan ymatebwyr

3.9 Mae Tabl 3.2 yn nodi gyda pha asiantaethau y gweithiodd awdurdodau lleol â hwy er mwyn darparu chwarae mynediad agored. Soniodd 18 o’r 22 awdurdod am y sector gwirfoddol mewn ymateb i’r cwestiwn hwn yn yr arolwg, ac mae’n amlwg fod ganddo rôl allweddol wrth gyflwyno darpariaeth chwarae. Dangosodd yr arolwg cysylltiedig o ffora chwarae mai gyda gwasanaethau cymdeithasol y gweithiai sefydliadau gwirfoddol â hwy amlaf (soniwyd mewn 5 allan o 9 ymateb), gydag addysg a hamdden yn dilyn (3 ymateb yr un).

3.10 Dywedodd awdurdodau lleol hefyd iddynt weithio gyda chymdeithasau tai (11/22) yr heddlu (7) gwahanol bartneriaethau yn cynnwys Partneriaethau Plant a Ieuenctid, Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a ffora chwarae (4), a chynghorau cymuned neu dref (4). Mae’n

debyg fod gweithio gyda ffora chwarae a chynghorau lleol yn fwy eang nag a ddangosir yn y ffigurau hyn, gan i'r categorïau hyn gael eu hychwanegu gan ymatebwyr dan 'arall' yn hytrach na bod wedi'u rhestru i'r holl awdurdodau eu ticio.

3.11 Dim ond tri o'r 22 awdurdod a soniodd am weithio gyda gwasanaethau iechyd, a restrwyd fel opsiwn yn yr arolwg. Oherwydd pwysigrwydd chwarae ar gyfer hyrwyddo ffitrwydd a lles emosiynol, ymddengys hwn yn fwlch pwysig yn nhermau cydweithio. Daeth darlun tebyg i'r amlwg o ddadansoddiad y ffurflenni Dychwelyd Grant a gyflwynwyd gan Bartneriaethau Plant a Ieuenctid. Dim ond pump soniodd yn benodol am ymgyfraniad cynrychiolydd o'r gwasanaethau iechyd, megis ymddiriedolaeth iechyd cymunedol, grwp iechyd lleol, gweithwyr chwarae ysbytai neu'r awdurdod iechyd, wrth wneud penderfyniadau am ddefnyddio grant Chwarae 2000.

## Gweithio gyda defnyddwyr

3.12 Gofynnwyd i awdurdodau lleol os oeddent yn cynnwys darparwyr eraill a defnyddwyr, yn cynnwys plant a phobl ifanc, wrth gynllunio cyfleusterau chwarae mynediad agored. Dywedodd dros dri chwarter (17/22) eu bod yn gwneud hynny. Roedd y dulliau o wneud hynny yn cynnwys:

- Defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus fel dyfeisiau ymgynghori
- Cylchredeg holiaduron drwy ysgolion
- Ymgynghori â phlant i geisio eu barn a'u galluogi i gynllunio datblygiad gweithgareddau a chynllunio offer
- Casglu adborth o sesiynau ymarferol
- Cynnal polau barn mewn meysydd chwarae
- Ymgynghori gyda ffora ieuenctid lleol
- Ymgynghori gyda chymdeithasau trigolion, cynghorau tref a chymuned
- Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a ffora chwarae.

**Enghraifft: Cynnwys Defnyddwyr**

Yng Ngheredigion, defnyddiwyd rhan o'r grant Chwarae 2000 i ddatblygu parc bwrdd-sglefrio gyda ymgyfraniad grwp ieuenctid, a ddewisodd yr offer ac a fydd yn mynd ati i reoli a 'phlismona' yr ardal.

3.13 Gwyddai chwe awdurdod lleol am ffora chwarae gweithgar yn eu hardal (diffiniwyd fel 'sefydliad ymbarél yn cynnwys unigolion ac asiantaethau, yn wirfoddol a statudol, gyda diddordeb mewn chwarae plant') a roedd pump yn eu cynnwys wrth gynllunio darpariaeth chwarae. Fodd bynnag nid oes fforwm ym mhob ardal o Gymru, a dywedodd sawl ffora a ymatebodd i'r arolwg sector gwirfoddol eu bod yn ymdrechu i gadw i fynd neu nad oedd ganddynt gefnogaeth ddigonol.

3.14 Dododd ffora bwyslais arbennig ar ganfod ffyrdd o gynnwys plant a phobl ifanc, ac ymddangosai fod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth gweithio gyda grwpiau o'r fath. Dywedodd tri awdurdod y byddid yn creu a datblygu ffora chwarae fel canlyniad i gynllun grant Chwarae 2000.

## Dyrannu Grant Chwarae 2000

3.15 Rhoddodd y Ffurflenni Dychweliad Grant ffynhonnell arall o wybodaeth ar faint o gydweithio a fu rhwng partïon â diddordeb wrth benderfynu sut y dylid gwario grant Chwarae 2000. Thema gyson oedd fod yr amserlen fer ar gyfer cyflwyno cynigion wedi cyfyngu ar faint o ymgynghori a fu’n bosibl, a gobeithid y byddai unrhyw gyllid yn y dyfodol yn rhoi mwy o amser ar gyfer gwaith paratoi a chydweithio.

3.16 Cafodd cylchlythyr y Cynulliad yn disgrifio cynllun Grant Chwarae 2000 ei gyfeirio i ddechrau at Bartneriaethau Plant a Ieuenctid, a mabwysiadodd y rhain wahanol ddynesiadau at hysbysu cyrff eraill am y cynllun. Roedd hyn yn cynnwys cylchredeg y cylchlythyr i aelodau’r Partneriaethau a gofyn iddynt awgrymu sefydliadau lleol i gysylltu â hwy, trefnu cyfarfodydd arbennig a gwahodd partneriaethau eraill a rhwydweithiau gydag arbenigedd i gymryd ran, dirprwyo'r dasg i fforwm chwarae lleol, a sefydlu gweithgorau penodol i weithredu’r cynllun grant.

3.17 Er enghraifft, ym **Mhowys** drafftiwyd y cynigion gan y Grwp Tasg Strategaeth Chwarae dan gyfarwyddyd y Bartneriaeth Plant a Ieuenctid. Roedd y grwp tasg yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sector statudol a gwirfoddol, ac mae eisoes yn arwain wrth ddatblygu’r strategaeth chwarae sirol gyntaf i Gymru.

**Enghraifft: Manteision Strategaeth Chwarae**

Mae’r Strategaeth Chwarae yr oedd Cyngor Sir Powys eisoes wedi’i datblygu yn ei gwneud yn bosibl defnyddio grant Chwarae 2000 mewn ffordd dargedig, effeithlon a strategol. Cynorthwyodd hefyd i hwyluso ymateb cyflym gan fod y broses ymgynghori i gytuno ar y Strategaeth a gynhaliwyd eisoes yn golygu ei bod yn syml dynodi’r sefydliadau ac unigolion a fedrai gyfrannu at ddyrannu’r grant.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Yn **Sir Gaerfyrddin,** ffurfiwyd panel yn cynnwys swyddogion o’r adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a Thai ynghyd â Chymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin. Ystyriodd y fforwm dros 50 o geisiadau a dderbyniwyd fel canlyniad i wahoddiad targedig i gyrff perthnasol a sefydliadau gwirfoddol yn ymwneud â darpariaeth chwarae yn y sir.

- Yn **Nhorfaen**, paratôdd y Rheolwr Ieuenctid a Chymuned a’r Rheolwr Gwasanaethau Hamdden gynigion ar gyfer gwario’r grant a mynd â’r rhain i’r Bartneriaeth Plant a Ieuenctid i’w trafod a’u cadarnhau.
- Ym **Merthyr Tudful,** rheolodd y Fforwm Chwarae y grant ar ran y Bartneriaeth Plant a Ieuenctid gan y teimlwyd fod ganddynt fwy o brofiad o gyflwyno gwasanaeth chwarae.
- Yn **Rhondda Cynon Taf,** defnyddiodd y Bartneriaeth Plant a Ieuenctid y Gymdeithas Chwarae leol, rhwydwaith cefnogaeth o ddarparwyr chwarae gwirfoddol a chymunedol yn

gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Sefydlodd y Gymdeithas feini prawf dethol ac ysgrifennu at bob darparydd chwarae y gwyddent amdanynt yn eu hysbysu am y grant.

3.18 Ni theimlai pob Partneriaeth Plant a Ieuenctid fod ganddynt brofiad perthnasol am chwarae na dealltwriaeth o chwarae mynediad agored i fedru dosbarthu'r cyllid eu hunain, ond medrodd y rhan fwyaf gynnwys eraill i'w cynorthwyo i ddynodi pwy y dylid eu hysbysu am y cynllun grant a'u gwahodd i wneud cais.

3.19 Er i amrediad eang o gyrff perthnasol dderbyn gwybodaeth am y cynllun grant, golygai'r amserlen fer mai ychydig o amser oedd yn aml i gynnwys eraill mewn cynllunio sut y dylid dyrannu'r arian. Dywedodd un rhwydwaith chwarae yn yr arolwg mai dim ond ar ôl cyflwyno'r cynnig gan y bartneriaeth yr ymgynghorwyd â hwy, a dywedodd dau arall na ymgynghorwyd â hwy o gwbl.

3.20 Mynegodd un rhwydwaith chwarae sy'n gweithio ar draws sawl ardal awdurdod lleol bryder am y gwahanol ffyrdd y cafodd ei drafod gan wahanol bartneriaethau. Mewn un achos dim ond ar ôl anfon y cynnig yr ymgynghorwyd â hwy dros y ffôn. Mewn achosion eraill, gofynnwyd iddynt ymuno â gweithgorau a chynghori ar ddefnydd da o arian.

## Datblygu strategaeth chwarae

3.21 Dangosodd yr arolwg yn glir fod gan lawer o wahanol adrannau ac asiantaethau ddiddordeb mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, ond anaml yr oedd gan unrhyw un drosolwg da. Dywedodd llai na chwarter yr awdurdodau (Blaenau Gwent, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys a Rhondda Cynon Taf) fod ganddynt bolisi neu strategaeth chwarae y cytunwyd arno, er fod pedwar arall yn y broses o ddatblygu un neu'n cynllunio gwneud hynny. Dengys yr enghraifft yn y blwch islaw sut yr oedd un awdurdod yn defnyddio cynllun grant Chwarae 2000 i greu sylfaen wybodaeth gadarn ar gyfer datblygu dynesiad strategol at chwarae. Dywedodd ychydig dros hanner yr awdurdodau (12) fod ganddynt bolisi o fabwysiadu ardaloedd chwarae.

3.22 Cadarnhawyd y darlun hwn o ddarpariaeth ddarniog gan ddadansoddiad o ffurflenni grant Chwarae 2000 a ddychwelwyd gan y Partneriaethau Plant a Ieuenctid. Cytunodd dros dri chwarter y partneriaethau fod angen gwella cydlynu gweithgareddau chwarae yn eu hardal (dim ond un a anghytunodd, a roedd pedwar yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn). Dynodwyd mai manteision posibl cydweithio agosach oedd:

- gwell cynllunio/dynesiad mwy strategol
- gwell targedu ar angen
- gwell rhannu gwybodaeth ac arfer da
- llai o ddyblygu gweithgareddau
- cydlynu i sicrhau cyllid
- dosbarthiad tecach o adnoddau
- cefnogaeth rhyng-asiantaeth a rhwydweithiau hyfforddi

- gwella ansawdd chwarae.

**Enghraifft: Datblygu Strategaeth Chwarae yn Sir Ddinbych**

Cydlynwyd cynigion Chwarae 2000 Cyngor Sir Ddinbych gan y Grwp Rheolaeth Cynhwysiant Cymdeithasol, sydd hefyd yn gweinyddu'r Gronfa Partneriaeth Plant a Ieuenctid. Prif ddau linyn y cynnig oedd rhaglen ddwys o ddigwyddiadau chwarae yn ystod dwy wythnos olaf gwyliau'r ysgol i godi ymwybyddiaeth o chwarae; a phroses ymchwil a chasglu gwybodaeth yn arwain at ddatblygu strategaeth chwarae ar gyfer y sir. Dynodwyd gwahanol elfennau y gydran ymchwil yn glir:

- archwiliad o safleoedd meysydd chwarae (diogelwch a hefyd gwerth chwarae)
- arolwg o sampl o rieni a disgyblion ym mhob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig
- arolwg o gynghorau cymuned, sefydliadau gwirfoddol a chymdeithasau tai
- ymchwiliad i rôl ac effeithlonrwydd darpariaeth bresennol chwarae mynediad agored
- datblygu polisi chwarae mynediad agored, rhesymeg safonau a strategaeth chwarae i Sir Ddinbych yn cynnwys rhaglen weithiau 7 mlynedd wedi'i chostio
- datblygu Dogfen Cyfleoedd gyda gwybodaeth ar ddeddfwriaeth a ffynonellau cyllid i gynorthwyo darpariaeth newydd i ddechrau arni

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yr ymchwil ar gael i aelodau o'r gymuned a sefydliadau mewn copi caled ac ar ffurf electronig drwy amrywiaeth o allfannau.

## 'Lladmerydd chwarae'?

3.23 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a ffora gwirfoddol os teimlent y byddai lladmerydd chwarae lleol, a ddisgrifiwyd fel 'pobl a fyddai'n amlygu anghenion chwarae plant a chynrychioli diddordebau chwarae lle gwneir penderfyniadau, tra'n cefnogi pobl leol, plant a ffora' o werth wrth wella darpariaeth yn eu hardal. Cyffelybwyd rôl lladmerydd chwarae gydag un y Swyddogion Datblygu Chwaraeon a gyllidir gan y Cyngor Chwaraeon.

3.24 Roedd cefnogaeth gweddol unfrydol i'r syniad, a nododd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi dyrannu arian o'r cynllun grant Chware 2000 ar gyfer cydlynydd chwarae i gymryd y rôl. Fodd bynnag roedd hefyd rai pryderon fod gan y lladmerydd chwarae bwer gwirioneddol ac na fyddai, yng ngeiriau un cynrychiolydd fforwm chwarae, 'yn siaradwr/cynghorydd arall eto'.

# 4. EFFAITH CYNLLUN GRANT CHWARAE 2000

4.1 Mae ymatebion i holiaduron, sylwadau ar ffurflenni dychwelyd grant a sgyrsiau ffôn gyda phobl allweddol oll yn dangos i gynllun Grant Chwarae 2000 gael croeso cynnes gan sefydliadau statudol a gwirfoddol yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant ledled Cymru. Dywedwyd ei fod wedi:

- Galluogi partneriaethau i ymchwilio'r broses o gydweithio ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc
- Datblygu darpariaeth i ddynodi ac ateb anghenion plant a phobl ifanc a dargedwyd
- Annog partneriaethau i ymchwilio yn fanwl eu dirnadaeth a diffiniad o chwarae mynediad agored a'i effeithiau ar blant lleol
- Annog partneriaethau i feddwl yn greadigol a blaengar wrth gynllunio defnyddio arian grant.

4.2 Roedd rhai problemau ac anawsterau a drafodir islaw, ond yr argraff bennaf o'r arolwg oedd bodlonrwydd fod maes a esgeuluswyd wedi derbyn peth sylw ac adnoddau o'r diwedd.

> *"Mae wedi rhoi hwb a groesewir yn fawr i chwarae mynediad agored. Mae'n wych gweld mynediad agored yn cael rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r diwedd"* (Caerdydd)
>
> *"Mae grant Chwarae 2000 yn gyfle ardderchog i ysgogi cyfleusterau chwarae a rhoi proffil uwch iddynt"* (Sir Fynwy)
>
> *"Mae darparu cyllid dan y cynllun wedi bod ag effaith uniongyrchol, sylweddol ar ddarpariaeth chwarae yn y sir"* (Casnewydd).

4.3 Roedd ffurflenni dychwelyd grant gan Bartneriaethau Plant a Ieuenctid yn adleisio hyn: disgrifiwyd Chwarae 2000 yn 'llwyddiant diamheuol' (Blaenau Gwent) a'i 'groesawu'n fawr gan bawb yn gysylltiedig' (Sir y Fflint).

## Sut y defnyddiwyd y grant

4.4 Caiff y defnyddiau a wnaed o grant Chwarae 2000 eu crynhoi yn Nhabl 4.1, yn seiliedig ar y ffurflenni dychwelyd grant gan bartneriaethau. Cynhwysir gwybodaeth fanylach am y prosiectau a gynigiodd pob sir eu cyllido dan Chwarae 2000 yn Atodiad 1. Roedd yr union wariant a phrosiectau arfaethedig yn adlewyrchu eu gilydd yn agos, gan awgrymu er gwaethaf peth llithriad a achoswyd gan amseriad y cynllun a gohiriadau wrth dderbyn cymeradwyaeth gan y Cynulliad, fod awdurdodau wedi llwyddo i ddefnyddio'r grant yn y ffordd a fwriadwyd.

4.5 Mae'r rhif wrth ymyl pob math o weithgaredd yn Nhabl 4.1 yn cynrychioli nifer y partneriaethau yn defnyddio'r grant Chwarae 2000 ar gyfer y pwrpas hwn, ac nid y nifer o brosiectau unigol a gyllidwyd, a fydd yn llawer uwch. Mae'r tabl yn dangos yr ystod eang o ddefnyddiau a wnaed o grant Chwarae 2000. Defnyddiwyd yr arian i alluogi prosiectau presennol i barhau neu ymestyn eu darpariaeth; i ddarparu cyfleusterau neu wasanaethau newydd; ac i greu isadeiledd o hyfforddiant a chefnogaeth fyddai'n annog datblygu darpariaeth chwarae newydd yn y dyfodol.

4.6 Defnyddiwyd grantiau hefyd i gynnal archwiliadau ac ymchwil i roi sylfaen gwybodaeth gadarn a fedrai fod yn sylfaen i ddatblygiad strategaeth chwarae gydlynus.

| Tabl 4.1: Defnydd grant Chwarae 2000 | |
|---|---|
| **Math gweithgaredd** | **ALl** |
| Hyfforddiant | 13 |
| Cynlluniau chwarae gwyliau | 12 |
| Llyfrgell chwarae/canolfan adnoddau/offer | 9 |
| Chwarae cynhwysol | 9 |
| Digwyddiadau a gweithdai chwarae | 9 |
| Darpariaeth symudol a chludiant | 9 |
| Adnewyddu ardaloedd chwarae | 6 |
| Grantiau bach i brosiectau gwirfoddol/cyrff gwirfoddol | 6 |
| Cydlynydd chwarae/gweithwyr datblygu | 5 |
| Ymchwil/archwilio cyfleusterau chwarae | 4 |
| Archwiliad o ardaloedd chwarae sefydlog | 2 |
| Pecynnau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth | 3 |
| Prynu tir | 2 |
| Clybiau plant | 2 |
| Cyfraniad at gost cyfleusterau chwarae/campau newydd | 2 |

## Llwyddiant yn targedu angen

4.7 Pwrpas cynllun grant Chwarae 2000 oedd gwella cyfleusterau chwarae mynediad agored ar gyfer plant mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru. Yn eu ffurflenni dychweliad grant, gofynnwyd i bartneriaethau nodi sut yr oeddent wedi ceisio sicrhau fod cyllid wedi'i dargedu tuag

at y grwpiau hyn.

4.8 Cyflawnwyd hyn mewn nifer o ffyrdd:

- **Cymhwyso meini prawf gwerthuso systemataidd** i geisiadau ar gyfer grant Chwarae 2000. Defnyddiodd Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, ddull sgorio pwysedig yn y broses ddilysu, a roddodd ystyriaeth i fynegeion difreintiad (60%), cynaliadwyedd (10%), cyfleusterau presennol (20%) a chanfyddiad y cyhoedd drwy arolwg a gynhaliwyd gan MORI (10%). Cadarnhaodd gwerthusiad annibynnol o geisiadau fod y system bwysiad yn briodol. Disgrifiodd Wrecsam system debyg o 'sgorio matrics' ar gyfer pob cynnig, yn seiliedig ar feini prawf a nodwyd yng nghynllun grant Chwarae 2000.
- **Targedu datblygiadau i gymunedau difreintiedig**, a ddynodwyd un ai ar sail gwybodaeth leol neu'n fwy gwrthrychol ar sail sgoriau uchel ar wahanol fynegeion difreintiad. Roedd sawl awdurdod wedi defnyddio Mynegai Difreintiad Lluosog yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Y Cynulliad Cenedlaethol 2000), sy'n cyfuno llawer o wahanol ddangosyddion o anfantais ar lefel ardal fechan. Roedd un awdurdod, gyda phocedi o ddifreintiad, wedi darparu gwasanaeth bws di-dâl i ddod â phlant o'r ardaloedd hyn i gynlluniau chwarae haf.
- **Ymgynghori gyda phartneriaethau a grwpiau cynllunio eraill**. Cynorthwyodd cysylltiad agos gydag amrediad o swyddogion proffesiynol yn gweithio gyda phlant a theuluoedd, ac yn arbennig yn cael mewnbwn gan bartneriaethau sy'n ffocysu ar ardaloedd anfanteisiedig (megis Cychwyn Cadarn) a gan sefydliadau allweddol yn gweithio gyda grwpiau anfanteisiedig, i sicrhau y darparwyd cyfleoedd chwarae ar gyfer y rhai oedd fwyaf eu hangen.
- Medrodd un awdurdod, Powys, **ddefnyddio ei Strategaeth Chwarae,** oedd yn amcanu trafod anghenion chwarae plant mewn ardaloedd gwledig a chymunedau anghysbell i lywio ei ddyraniad o arian grant.
- **Datblygu darpariaeth ar gyfer grwpiau 'anodd eu cyrraedd'**. Yn ogystal â thargedu prosiectau at ardaloedd gyda lefel uchel o ddifreintiad, canolbwyntiodd rhai partneriaethau hefyd ar wneud darpariaeth chwarae yn fwy hygyrch i grwpiau nad oedd rhaglenni presennol wedi eu cynnwys yn effeithlon. Roedd hyn yn cynnwys plant y gofelir amdanynt gan yr awdurdod lleol, gofalwyr ifanc, plant gydag anableddau, plant o grwpiau lleiafrif ethnig a phlant Teithwyr.

**Enghraifft: Ymestyn i grwpiau anfanteisiedig**

- Trefnodd **Gwent** gynllun 2 wythnos ar gyfer plant y gofelir amdanynt gan yr awdurdod lleol, i'w cyflwyno i wahanol weithgareddau chwarae mewn un Ganolfan Hamdden.
- Darparodd **Sir y Fflint** raglen haf o weithgareddau ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Gweithiodd **Wrecsam** mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill i ddatblygu ardal chwarae a storfa offer chwarae gyfer Teithwyr ifanc yn byw ar safle parhaol.
- Yn **Ynys Môn,** trefnodd NCH Action for Children gyfres o 'brynhawniau cymunedol' yn cyflwyno plant gydag amrywiaeth o anawsterau dysgu, ymddygiadol a chorfforol i gyfleoedd chwarae newydd.

4.9 Teimlai'r rhan fwyaf o bartneriaethau eu bod wedi llwyddo wrth dargedu cyllid Chwarae 2000 at y plant oedd fwyaf ei angen. Fodd bynnag, gallasant ddynodi amrywiaeth o faterion ychwanegol oedd angen eu hystyried wrth ddatblygu darpariaeth chwarae mewn ardaloedd difreintiedig.

4.10 Roedd cyllid yn agwedd allweddol: byddai creu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer teuluoedd lle'r oedd lefelau uchel o ddiweithdra yn galw am gyllid diogel, tymor hwy. Roedd rôl chwarae mewn 'adeiladu darpariaeth' mewn cymunedau difreintiedig gyda lefelau uchel o ddieithrwch cymdeithasol yn fater allweddol arall. Dylid cynnig chwarae ar gyfer plant wrth ochr cyfleoedd i rieni i gael hyfforddiant neu gyflogaeth, ac wrth ochr gwaith gyda rhieni (er enghraifft mewn canolfannau teulu) a fyddai'n eu cynorthwyo i ddeall pwysigrwydd chwarae i blant ifanc.

4.11 Ystyriwyd fod cael cefnogaeth trigolion lleol ac ymdeimlad o 'berchnogaeth gymunedol' yn hollbwysig i ddatblygu darpariaeth chwarae mewn ardaloedd difreintiedig. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd offer cadarn mewn ardaloedd chwarae fyddai'n gwrthsefyll fandaliaid, ond nid oedd hyn yn golygu fod yn rhaid i offer fod yn brin o ddychymyg ac anneniadol.

4.12 Materion eraill a godwyd gan bartneriaethau oedd yr angen i gydnabod amrywiaeth diwylliannol a ieithyddol, ac i ddarparu cludiant fel bod cyfleusterau chwarae yn hygyrch i blant mewn lleoedd anghysbell yng nghefn gwlad neu yn y cymoedd.

## Cynaliadwyedd

4.13 Oherwydd mai ffynhonnell unwaith-yn-unig o gyllid am un flwyddyn yn unig oedd grant Chwarae 2000 i ddechrau, roedd y Cynulliad yn awyddus i sicrhau y medrid cynnal datblygiadau newydd ar ôl y cyfnod hwnnw. Yn eu ffurflenni Dychweliad Grant, dywedodd llawer o bartneriaethau ei bod yn anodd sicrhau newid cynaliadwy, yn arbennig mewn cymunedau difreintiedig, gyda chyllid wedi'i gyfyngu gymaint o ran amser. Fodd bynnag, roeddent wedi ceisio sicrhau cyn belled â bod modd y byddai gan y chwistrelliad arian fanteision tymor hwy drwy:

- Gyllido prosiectau a fedrai barhau i gael eu defnyddio ar ôl i'r cyfnod grant ddod i ben, megis offer ac adnoddau ac ardaloedd chwarae newydd neu wedi'u hadnewyddu
- Gwella strwythurau cefnogaeth i ddarparwyr chwarae, yn cynnwys hyfforddiant, adeiladu darpariaeth a chreu ffora chwarae
- Defnyddio peth o'r arian i annog pobl na fyddai fel arfer yn cyrchu cyfleusterau hamdden i'w defnyddio (er enghraifft drwy ddosbarthu cardiau Canolfan Hamdden di-dâl), gan obeithio y byddent yn arwain at ddefnydd parhaol
- Cyllido prosiectau presennol i sicrhau eu bod yn parhau yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn unig
- Gweithio gydag asiantaethau eraill i ddechrau datblygu dynesiad mwy strategol at chwarae, fel y byddai'r ddarpariaeth newydd yn rhan o gynllun cynhwysfawr yn hytrach na datblygiadau ynysig.

Ym mis Hydref 2000, cyhoeddodd y Cynulliad bosibilrwydd cyllid blwyddyn bellach ar gyfer y cynlluniau yn ei ddrafft gyllideb ar gyfer 2001-02. Cadarnheir y gyllideb derfynol yn gynnar ym mis

Chwefror 2001.

## Gwella cynllun grant Chwarae 2000

4.14 Roedd gan bartneriaethau ddwy brif feirniadaeth o gynllun grant Chwarae 2000: yr amserlen fer ar gyfer paratoi cynigion, a nodwyd gan bron bob ymatebydd yn y sector awdurdod lleol a hefyd y sector gwirfoddol, a'r angen am gyllid parhaol yn hytrach nag unwaith-yn-unig.

> *"Mae angen cyhoeddi cyllid allanol gyda digon o rybudd i ganiatáu cynllunio ac ymgynghoriad effeithlon i gael eu darparu ar sail tymor hir, h.y. pum mlynedd neu fwy, i ganiatáu sefydlu partneriaethau cyflwyno effeithlon ar lefel leol".*

4.15 Daeth y cyllid am flwyddyn gyntaf cynllun grant Chwarae 2000 o danwariant mewn adran arall. Gwnaed y penderfyniad i ddefnyddio'r cyllid i gefnogi chwarae mynediad agored ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel bod yr amserlen ar gyfer cynllunio'r cynllun yn fyr iawn a ni dderbyniodd Partneriaethau Plant a Ieuenctid wybodaeth hyd fis Ebrill 2000. Golygai hyn fod yn rhaid cynllunio a chymeradwyo mewn amserlen fer iawn, na roddodd fawr o gyfle i bartneriaethau ymgynghori'n eang ar sut y dylid gwario'r grant.

4.16 Roedd nifer o anawsterau dechreuol eraill gyda'r cynllun. Roedd peth tystiolaeth i ddangos y gwariwyd peth o'r cynnig ar brosiectau na fyddai llawer yn ei ystyried yn chwarae mynediad agored, ac a fedrai mewn gwirionedd ddenu cyllid o ffynonellau eraill. Roeddent yn cynnwys gwyliau chwaraeon a digwyddiadau chwaraeon, tripiau dydd, cynlluniau addysg awyr agored, offer ar gyfer clybiau gofal a meithrinfeydd. Drwyddi draw, mae'r union wariant yn eithaf bach, ond ymddengys i'r amserlen arwain ychydig o bartneriaethau i fethu ymchwilio chwarae mynediad agored a'i nodweddion yn llawn.

4.17 Roedd hefyd dystiolaeth, a gafwyd o ohebiaeth a sgyrsiau ffôn, fod tair partneriaeth wedi defnyddio grant Chwarae 2000 i weithredu darpariaeth a gynlluniwyd eisoes gan yr awdurdod lleol. Ymddengys fod hyn oherwydd cyfyngiadau cyllideb a arweiniodd at leihau cynlluniau a redwyd yn flaenorol. Er y medrir ei weld fel defnydd priodol o arian, meini prawf y grant oedd y dylai greu darpariaeth newydd, nid ar gyfer prosiectau yr oedd awdurdodau lleol eisoes wedi bod yn eu cyllido.

4.18 Ymddangosai fod llwyddiant y grant i rai partneriaethau yn nwylo unigolion â'u harbenigedd, yn hytrach nag unrhyw isadeiledd neilltuol. Gyda'r newidiadau mewn personél sydd wedi'u cysylltu'n draddodiadol gydag ad-drefnu llywodraeth leol, a'r her i'r sector gwirfoddol wrth gynnal cyllid i barhau prosiectau a staff, roedd hyn yn gonsýrn o ddifrif i sawl o'r rhai oedd yn gysylltiedig â'r arolwg.

## Gwersi a ddysgwyd

4.19 Cododd y broses o ddosbarthu grant Chwarae 2000 lawer o bwyntiau dysgu i'r

partneriaethau, a rannwyd ganddynt ar eu Ffurflenni Dychwelyd Grant. Roeddent yn cynnwys:

- Dylai pob "chwaraewr" perthnasol gael eu cynnwys ar ddechrau’r broses ac mae angen rhoi hynny ar waith cyn gynted ag y bo modd
- Mae difreintiad mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol
- Dylai sectorau gwirfoddol a statudol gael mewnbwn cyfartal
- Heb fforwm chwarae gweithgar, gall fod yn anodd dynodi’r amrediad mawr o ddarpar bartneriaid
- Mae’r diffiniad o chwarae yn agored i'w ddehongli
- Mae chwarae yn bwysig yn natblygiad plant a phobl ifanc
- Mae cynnig gwasanaethau drwy chwarae yn galluogi deialog gyda chymunedau
- Mae mynediad plant ifanc i weithgareddau chwarae yn dibynnu ar iddynt gael cefnogaeth eu rhieni.

Roedd y Ffurflenni Dychweliad Grant hefyd yn cyfleu ymdeimlad o gyffro ar y cyfleoedd y medrid eu cynnig i blant pan oedd cyllid ar gael *gyda digon o adnoddau, mae llawer o bethau yn bosibl".*

4.20 Drwyddi draw, roedd y dystiolaeth o’r arolwg a chyfweliadau ffôn yn awgrymu y bu Chwarae 2000 yn llwyddiannus wrth gyflawni ei amcanion:

- Galluogodd bartneriaethau i ymchwilio’r broses o gydweithio ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc
- Datblygodd ddarpariaeth i ddynodi ac ateb anghenion plant a phobl ifanc a dargedwyd
- Anogodd bartneriaethau i ymchwilio eu canfyddiad a’u diffiniad o chwarae mynediad agored yn fanwl a'i effeithiau ar blant lleol
- Anogodd bartneriaethau i feddwl yn greadigol a blaengar wrth gynllunio defnydd y cynllun hwn.

Rhannwyd consýrn y dylai’r posibiliadau a agorwyd gan grant Chwarae 2000 barhau yn y dyfodol.

## 5. CYLLID AC ADNODDAU

### Y swm a werir ar chwarae plant

5.1 Gofynnodd yr arolwg i awdurdodau lleol nodi y dyraniadau oedd yn eu cyllidebau yn benodol ar gyfer chwarae mynediad agored. Ceisiodd 19 o’r 22 roi’r wybodaeth a geisiwyd, gyda ffigurau yn amrywio o ddim i dros hanner miliwn o bunnoedd, ond roedd y ffigurau hyn yn anodd eu dehongli. Roedd adrannau gwahanol yn aml yn dal cyllidebau ar gyfer cynlluniau chwarae, canolfannau chwarae ac ardaloedd chwarae sefydlog; rhoddodd rhai awdurdodau un ffigur, eraill

ffigur arall. Roedd rhai'n cynnwys grantiau a dderbyniwyd ar gyfer darpariaeth chwarae (yn cynnwys Chwarae 2000), eraill ddim ond y cyllid craidd a ddyrannwyd.

5.2 Problem sylweddol arall oedd fod gwariant ar chwarae plant yn aml wedi'i ymgorffori o fewn gwasanaethau neu benawdau cyllideb eraill, yn hytrach na ffurfio canolfan gost benodol. Esboniodd un awdurdod:

> *"Mae'n anodd cael y ffigur ar gyfer gwario ar chware plant gan fod ffigur amrwd yn ddiystyr ac ni fyddai'n rhoi ystyriaeth i'r amrediad o wasanaethau sy'n cael cymorth grant drwy Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Hamdden, na fyddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael label Chwarae. Er enghraifft mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth grant o £150,000 y flwyddyn i faes chwarae antur ond byddai hyn wedi ei gyfrif dan faner gostwng troseddau".*

5.3 Esboniwyd amrywiadau mewn gwariant ar ddarpariaeth chwarae o flwyddyn i flwyddyn gan lwyddiant yn denu grantiau, rhaglenni penodol i uwchraddio ardaloedd chwarae, ac effaith cyfyngiadau cyllideb. Mewn pum awdurdod roedd cyllidebau chwarae wedi eu gostwng rhwng 1998/9 a 2000/01; mewn tri roeddent wedi gostwng yn ymarferol oherwydd na chawsant eu codi yn unol â chwyddiant; ac yn y gweddill roeddent wedi cynyddu, er yn anaml gan swm mawr. Yn aml roedd cyllid ychwanegol wedi ei glustnodi i adnewyddu ardaloedd chwarae sefydlog presennol i fodloni argymhellion Ewropeaidd newydd yn hytrach nag i ddarparu cyfleusterau newydd.

5.4 Cododd awdurdodau lleol y materion canlynol pan y'u holwyd am gyllid:

- Mae pryder fod chwarae'n gorfod cystadlu gyda gwasanaethau eraill am gyllid cyfyngedig
- Mae cynllun grant Chwarae 2000 wedi rhoi cyfle ardderchog i ysgogi cyfleusterau chwarae.
- Mae'n anodd i awdurdodau lleol ddynodi partneriaid cyllido.
- Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned i gyfateb cyllid ar gyfer datblygu darpariaeth chwarae.

## Darpar ffynonellau cyllid ar gyfer chwarae

5.5 Mae amrywiaeth o ddarpar ffynonellau cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored. Mae llawer ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cais mewn partneriaeth gyda chyrff gwirfoddol a chyrff eraill. Mae adran ddilynol yr adroddiad yn disgrifio'r prif gyrff cyllido.

### Awdurdodau Lleol

Mae Adrannau Hamdden Awdurdodau Lleol yn tynnu arian o adnoddau llywodraeth leol sydd yn cynnwys cyllid o Grant Cefnogaeth Refeniw y Cynulliad Cenedlaethol, arian a godwyd drwy''r Dreth Cyngor ac elfen awdurdod lleol trethi busnes. Caiff cyllidebau eu gosod yn dibynnu ar ddyraniadau awdurdodau lleol. Mae rhai gwasanaethau, megis Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gyfrifoldeb statudol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi arwyddion cryf ar y swm y dylid ei wario ar wasanaethau penodol, megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Dengys y dychweliadau gan Awdurdodau Lleol yn dangos fod Adrannau Hamdden wedi cael eu gwasgu fel canlyniad i flaenoriaethau gwario. Mae llawer o awdurdodau lleol yn methu cynnal lefelau uchel o wariant ar ôl 20 mlynedd o doriadau gan y llywodraeth ganolog. Er i'r toriadau hynny ddod i ben, mae awdurdodau lleol yn dal i deimlo'r effeithiau.

Mae ffynonellau newydd o gyllid ar gael i awdurdodau lleol drwy wahanol fentrau a chynlluniau'r llywodraeth, a yrrir gan ddiwylliannau cynnig. Er y croasawyd cynlluniau megis y Strategaeth Genedlethol ar Ofal Plant, mynegwyd peth pryder, yn arbennig gan rwydweithiau chwarae, y medrent annog awdurdodau lleol i symud eu blaenoriaethau ymaith o chwarae i wneud cais am y cyllid hwn, a chyllid tebyg.

**BBC Plant mewn Angen**

Mae BBC Plant mewn Angen yn dyrannu cyllid a gafwyd drwy ei ymdrechion codi arian ddwywaith y flwyddyn ym mis Tachwedd a mis Mawrth. Mae gan yr elusen feini prawf clir ar gyfer dyfarnu grantiau. Mae angen i ymgeiswyr fod yn sefydliadau dim-gwneud-elw gyda chyfansoddiadau, cyfrifon a phwyllgorau rheoli, a rhaid i fwyafrif y plant fydd yn manteisio fod yn anfanteisiedig. Mae hyn yn cynnwys plant yn dioddef effeithiau tlodi a difreintiad a phlant gydag anableddau. Y ceisiadau cyllido mwyaf llwyddiannus gan wasanaethau chwarae yng Nghymru fu'r rhai gydag agwedd ddatblygu, megis gweithwyr datblygu chwarae i gynyddu lefel y cyfleoedd chwarae ar gyfer plant lleol mewn cymunedau difreintiedig, a'r rhai sy'n integreiddio plant gydag anghenion arbennig mewn darpariaeth chwarae awyr agored.

**Y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF)**

Mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a gyllidir drwy'r Loteri Genedlaethol, hefyd feini prawf clir. Mae rhaglenni'r gorffennol wedi cynnwys Canolfannau Byw'n Iach a chynlluniau dysgu y Tu Allan i'r Ysgol. Er y gall rhai prosiectau sy'n manteisio o'r rhaglenni hyn fod â rhyw elfen chwarae ynddynt, mae'n annhebygol fod y cyfleoedd yn rhai mynediad agored fel y'u hesbonnir yn yr adolygiad hwn.

Enw'r rhaglen bresennol yw Cymunedau Cynaliadwy a Gofodau Gwyrdd. Bydd yr arian ar gael i grwpiau o sefydliadau i wella'r defnydd o ofod agored, a fedrai gynnwys creu parciau neu ardaloedd chwarae. Caiff partneriaeth yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Amgylchedd Cymru ei harwain gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a bydd yn dyrannu grantiau i brosiectau a'u cefnogi drwy'r broses. Mae'n amod o gyllid NOF y dylai'r cynigion ymateb i anghenion cymunedol. Gall y rhaglen bresennol yn rhwydd fod yn ffynhonnell gyllid ddelfrydol ar gyfer datblygu gofodau chwarae i blant.

Cyhoeddir rhaglenni newydd drwy'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Ystyrir prosiectau a chynlluniau'n ymwneud â datblygiad chwaraeon yn y rhaglen nesaf. Mae'r DCMS yn

cynnal ymgynghoriadau am raglenni'r dyfodol. Er y gall chwarae eistedd yn gysurus yn y rhan fwyaf o gyfresi rhaglen eang, nid yw darpariaeth chwarae mynediad agored fel rhaglen benodol wedi ei ystyried hyd yma. Fodd bynnag medrai fod manteision mawr mewn gweithio'n strategol gyda chyllidwyr eraill i gynyddu'r arian sydd ar gael i brosiectau; enghraifft yw'r bartneriaeth y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ei datblygu gyda Chanolfan Byw'n Iach Llaneirwg, gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth chwarae mynediad agored fel un o'r cyfleusterau a gynigir gan y ganolfan.

**Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (NLCB)**

Dim ond yn y sector gwirfoddol y gall Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol gyllido grwpiau. Gall awdurdodau lleol fanteisio o gyllid yr NLCB os ymunant â chonsortiwm yn gwneud cais am arian a fydd â manteision i'r gymuned, er enghraifft drwy weithredu fel cynghorwyr neu drosglwyddo lesau i eiddo.

Yn y flwyddyn 1999-2000, dyfarnwyd £1.5m i ymgeiswyr yn darparu gweithgareddau ar gyfer plant, ond nid o reidrwydd ar gyfer chwarae, yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dyfarniadau o lai na £5,000 gan y Cynllun Grantiau Bach, peth ohono wedi ei ddyfarnu i brosiectau chwarae a chynlluniau chwarae presennol ar gyfer prynu offer, cyflenwadau a hyfforddiant. Dyfernir grantiau datblygu mwy dan raglenni penodol. Mae'r rhaglen Ymgyfraniad Cymunedol a'r rhaglen Tlodi ac Anfantais ill dwy wedi cyllido prosiectau oedd ag elfen o ddarpariaeth chwarae ochr yn ochr â gweithgareddau eraill.

Mynegwyd pryderon yn yr holiaduron a ddychwelwyd o'r sector gwirfoddol y byddai llai o arian ar gael yn y dyfodol o'r Loteri oherwydd diffyg cronfeydd, ac y medrai penodi gweithredydd newydd i'r Loteri Genedlaethol fod ag effaith negyddol ar y cymorth grant oedd ar gael. Er fod yr NLCB wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o gyllido ar gyfer cynlluniau chwarae mynediad agored, mae hefyd bryderon y gall prosiectau ddirwyn i ben neu orfod cyfyngu'n sylweddol ar y gwasanaeth a gynigiant ar ddiwedd y cyfnod grant.

**Cyllid Ewropeaidd**

Gall prosiectau chwarae fanteisio o gyllid Ewropeaidd fel rhan o raglen ehangach, er enghraifft dan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF) neu'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF). Mae grantiau Ewropeaidd angen cyllid cyfatebol, y medrir ei ddarparu er enghraifft gan arian y Loteri Genedlaethol (ar gyfer y sector gwirfoddol) neu gronfeydd Her Dinas (ar gyfer awdurdodau lleol). Dywedodd y prosiectau hynny a fu'n llwyddiannus y gall y broses weinyddol fod yn anodd, llafurus, dryslyd a digalon.

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

Y ffynhonnell amlycaf o gyllid ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored gan y Cynulliad Cenedlaethol yw'r cynllun grant Chwarae 2000. Fodd bynnag medrir dyrannu cynlluniau cyllido

eraill a weinyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i chwarae fel rhan o raglen ehangach. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys Pobl mewn Cymunedau, Dechrau Cadarn a'r Gronfa Partneriaeth Plant a Ieuenctid.

**Ymddiriedolaethau Elusennol**

Mae ymddiriedolaethau niferus sy'n dyfarnu grantiau i brosiectau chwarae, rhai'n lleol a rhai'n genedlaethol. Her i'r sector chwarae yng Nghymru yw 'tynnu i mewn' gyllidwyr o Loegr sydd yn y gorffennol wedi mynegi diddordeb mewn cyllido prosiectau yng Nghymru. Mae meini prawf yn amrywio rhwng ymddiriedolaethau. Gall sefydliadau gwirfoddol dderbyn cymorth i gyrchu'r ffynhonnell hon o gyllid gan eu Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol, a all gynnig cefnogaeth a chyrchedd i gyfeiriaduron a meddalwedd ymddiriedolaethau sy'n rhoi grant. Mae awdurdodau lleol sydd wedi manteisio o ymddiriedolaethau elusennol wedi gwneud hynny mewn partneriaeth gyda sefydliadau gwirfoddol lleol.

**Credyd Treth Tomenni Llanw**

Mae safleoedd tomenni llanw yn casglu trethi ac yn dyrannu 20% o'r hyn a gesglir i grwpiau cymunedol i ddilyn gweithgareddau amgylcheddol. O'r cyllid a ddyrannwyd i grwpiau, daw 90% o dderbyniadau treth a rhaid i 10% ddod o elw neu gyfraniadau trydydd parti. I gyrchu hyn, mae angen i grwpiau cyllido gofrestru fel corff amgylcheddol gyda Entrust, corff a sefydlwyd i reoleiddio'r cynllun. I gofrestru, rhaid i nodau ac amcanion y grwp ateb meini prawf Entrust a rhaid rhoi 5% o unrhyw grant a dderbynnir i Entrust. Medrai defnyddiau derbyniol y cyllid gynnwys darpariaeth, gwella neu gynnal a chadw parc cyhoeddus neu amwynder cyhoeddus arall yn ardal safle tomen lanw.

**Enghraifft: Cyllid o sbwriel**

Cafodd Canolfan Adnoddau Chwarae Caerdydd gyllid dan y cynllun Treth Tomen Lanw i gynyddu nifer y cwmnïau y medrent gasglu gwastraff ailgylchadwy ganddynt i'w ddefnyddio gan brosiectau chwarae lleol.

## Ffynonellau cyllid ar gyfer chwarae

5.6 Mae pob un ond dau o'r awdurdodau lleol wedi ceisio cael cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored gan amrywiaeth o ffynonellau allanol (Tabl 5.1). Byddid wedi bod angen gwneud llawer o'r ceisiadau hyn ar y cyd gyda sefydliadau gwirfoddol, a chadarnhawyd hyn drwy draws-wirio gydag arolwg o ffora chwarae.

5.7 Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin o gyllid, gyda chwe awdurdod yn sôn am grantiau Chwarae 2000, pedwar yn sôn am gyllid Partneriaeth Plant a Ieuenctid, ac un

yr un yn sôn am Cychwyn Cadarn a Phobl mewn Cymunedau. BBC Plant mewn Angen a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd oedd y ffynonellau amlaf o grantiau wedyn. Mae cyllid gan ymddiriedolaethau elusennol yn cynnwys Cronfa Eglwysi Cymru ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

5.8 Roedd pedwar awdurdod wedi cael grantiau Ewropeaidd dan raglenni adfywio gwledig neu Amcan 2 neu 3. Er enghraifft defnyddiodd Rhondda Cynon Taf gyllid Amcan 2 yr ERDF i ddatblygu a chynnal ardaloedd chwarae ym Mherthcelyn, mewn ymgynghoriad gyda'r gymuned a gymerodd ran yn y cynllunio a gwneud penderfyniadau.

5.9 Mae'r wybodaeth yn Nhabl 5.1 yn debygol o dan-gyfrif faint o gyllid allanol sydd ar gael ar gyfer chwarae yng Nghymru. Mae'n cyfrif y nifer o awdurdodau a gafodd gyllid o ffynhonnell neilltuol, ond gall rhai fod wedi gwneud mwy nag un cais llwyddiannus i'r un ffynhonnell. Medrid yn rhwydd fod wedi ticio dau o'r categorïau a ychwanegwyd gan awdurdodau lleol dan y pennawd '"arall" ar yr holiadur – Credydau Treth Tomen Lanw a chynghorau tref/cymuned – yn amlach pe byddent wedi'u rhestru fel opsiynau.

5.10 Nid yw'r tabl ychwaith yn rhoi ystyriaeth i'r grantiau a dderbyniwyd gan sefydliadau gwirfoddol yn gwneud cais ar ben eu hunain yn hytrach nag mewn partneriaeth gyda'r awdurdod. Dywedodd yr holl ffora chwarae a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi gwneud cais am gronfeydd i ymddiriedolaethau elusennol, yn aml 'rhy niferus i'w nodi', a roedd pawb heblaw un wedi bod yn llwyddiannus yn cael peth cyllid o leiaf o'r ffynhonnell hon.

**Tabl 5.1: Ffynonellau cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored**

| **Ffynhonnell cyllid** | **Llwyddiannus** | **Aflwyddiannus** |
|---|---|---|
| Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol | 2 | 1 |
| Cronfa Cyfleoedd Newydd | 4 | |
| Plant mewn Angen | 7 | 2 |
| Comic Relief | 1 | |
| Ymddiriedolaethau elusennol | 4 | 1 |
| Cynulliad Cenedlaethol | 12 | |
| Ewropeaidd | 4 | |
| Arall: Treth Tomenni Llanw | 4 | |

| | | |
|---|---|---|
| Budd cynllunio | 1 | |
| Cynghorau tref/cymuned | 3 | |
| Y Swyddfa Gartref – cynllun Splash | 1 | |

5.11 Er y gall cymorth grant fod ar gael, mae llawer o grantiau – yn arbennig gan ymddiriedolaethau – am symiau cymharol fach, ac mae angen llawer iawn o waith i'w cael a gall hynny ymyrryd gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaeth. Amlygwyd yr heriau canlynol parthed cyllid hefyd mewn holiaduron a ddychwelwyd:

- Mae gan rai cyllidwyr feini prawf penodol iawn, a all arwain rhai ymgeiswyr i newid natur eu darpariaeth chwarae i ateb y meini prawf. Roedd ffora, yn arbennig, yn ymwybodol y medrai arwain at i ddarpariaeth gael ei dywys gan gyllid, yn hytrach nag amcanu i ddiwallu anghenion plant a chymunedau".
- Mae prosiectau chwarae llai wedi cael anhawster wrth gyrchu hyd yn oed symiau bach o arian, gan y gall llawer ohonynt fod heb arbenigedd paratoi ceisiadau, arddangos newid a dangos dulliau effeithlon o werthuso.

**Enghraifft: Arian Cyfatebol**

Dyrannodd Ynys Môn £3,000 o'i grant Chwarae 2000 i Gymdeithas Trigolion i brynu darn o dir ar gyfer cae pits pêl-droed maint iau. Bwriedir cronni'r cyllid hwn gyda grant a ddisgwylir gan ymddiriedolaeth leol i ffurfio'r cyfraniad 10% sydd ei angen i gael grant gan SPORTLOT dan y Rhaglen Cynhwysiant Cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi trigolion i ehangu i dir cyfagos i ddatblygu cyfleuster chwaraeon llifolau amlbwrpas ac ardal chwarae i blant.

5.12 Cynorthwyodd cyfweliadau gyda phobl allweddol mewn sefydliadau cyllido a rhai'n fu'n llwyddiannus wrth dderbyn grantiau i ddynodi'r nodweddion canlynol mewn ceisiadau llwyddiannus:

- Mae gan sefydliadau gyfansoddiad a medrant gyflwyno cofnodion da, megis cyfrifon, adroddiadau blynyddol a dogfennau polisi (h.y. polisi cyfle cyfartal, polisi iechyd a diogelwch)
- Os yw awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol yn gwneud cais gyda'i gilydd am gyllid, mae tystiolaeth dda fod partneriaeth sy'n gweithio
- Prosiectau'n medru dangos eu bod yn gynaliadwy a threfniadau cyllido ar gyfer y dyfodol
- Ffora a rhwydweithiau chwarae yn rhoi cefnogaeth a chyngor i aelod-sefydliadau neu'n gweithredu fel 'ty clirio' ar gyfer ceisiadau.

## 6. MATERION AC ARGYMHELLION

6.1 Mae pennod olaf yr adroddiad yn amlinellu nifer o faterion allweddol yn deillio o ganfyddiadau'r arolwg, ac yn cyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried gan aelodau'r Cynulliad.

### Mynediad anghyfartal

6.2 Mae amrediad eang o ddarpariaeth chwarae mynediad agored ledled Cymru, yn cynnwys rhai prosiectau blaengar a chyffrous, ond mae argaeledd yn amrywio rhwng awdurdodau, a rhwng ardaloedd trefol a gwledig o fewn awdurdodau. Mae mynediad plant i gyfleusterau chwarae yn dibynnu i raddau helaeth ar lle maent yn byw.

6.3 Ymddengys yn aml fod datblygiad cyfleoedd chwarae yn dibynnu ar egni a chymhelliant ychydig o unigolion ymrwymedig, ac nid oes ganddo sylfaen polisi sir-gyfan ar chwarae a fyddai'n sicrhau fod darpariaeth yn parhau hyd yn oed pa bai'r unigolion dan sylw yn symud ymlaen.

### Diffyg cydlynu ac adran 'arweiniol' ar gyfer chwarae

6.4 Dim ond golwg rhannol iawn o'r ddarpariaeth ar gael sydd gan lawer o awdurdodau ac ychydig o drosolwg strategol neu gyd-gynllunio sydd. Mae gan wahanol adrannau gyfrifoldeb am wahanol agweddau o ddarpariaeth chwaraeon, yn aml gyda dynesiadau a dealltwriaeth wahanol iawn o'r hyn mae plant ei angen. Caiff y darnio hyn ei adlewyrchu ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol.

6.5 Mater allweddol a godwyd gan yr adolygiad yw'r cwestiwn lle dylid lleoli'r cyfrifoldeb arweiniol dros chwarae, ar lefel y Cynulliad a hefyd lefel yr awdurdod lleol. Dengys tystiolaeth ymchwil fod chwarae yn hanfodol ar gyfer datblygiad plant, ac mae hefyd yn cynorthwyo i gryfhau teuluoedd, cryfhau cymunedau a mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol. Gall wneud cyfraniad pwysig at gyflawni amcanion llawer o gynlluniau'r llywodraeth ac i agenda Gwell Cymru. Ond bydd yn anodd mwyhau'r potensial hwn heb arweiniad clir a dynesiad strategol at ddatblygu darpariaeth chwarae.

### Effaith cynlluniau'r llywodraeth a deddfwriaeth iechyd a diogelwch

6.6 Ni fu darpariaeth chwarae erioed yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwariant y llywodraeth, ond mae datblygiadau diweddar wedi bygwth hyfywdra rhai cyfleusterau chwarae ymhellach.

6.7 Mae deddfwriaeth Ewropeaidd, a gyflwynwyd yn Ionawr 1999, yn ei gwneud yn offer i'r holl offer chwarae a osodwyd ar ôl y dyddiad hwnnw i ateb gofynion iechyd a diogelwch neilltuol. Er nad oes yn rhaid symud offer presennol nad yw'n ateb y safonau newydd os y gall basio 'asesiad risg', mae rhai awdurdodau wedi teimlo'r nifer i gau nifer o'u hardaloedd chwarae sefydlog.

6.8 Bygythiad arall i athroniaeth chwarae mynediad agored fu effaith cynlluniau megis y

Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol, sydd wedi gwneud cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu gofal plant tra bo rhieni yn gweithio. Tra'n croesawu'r cynllun hwn, mae sefydliadau ac unigolion sy'n hyrwyddo chwarae plant yn bryderus fod hyn yn arallgyfeirio cynlluniau chwarae ar ôl ysgol a gwyliau ymaith o'u hamcanion gwreiddiol mewn ymgais i sicrhau cyllid, ac yn rhoi llai o bwysigrwydd ar chwarae mynediad agored.

6.9 Nid oes gan chwarae broffil uchel, yn wir prin y sonnir amdano yn y llu o ddogfennau cynllunio y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cynhyrchu. Os unrhyw beth, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu wrth i Gynlluniau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n canolbwyntio ar addysg a gwasanaethau gofal plant, ddisodli'r Adolygiadau Gofal Dydd a gynhaliwyd dan Adran 19 y Ddeddf Plant, oedd yn ystyried argaeledd cynlluniau chwarae gwyliau a gwasanaethau chwarae eraill i blant hyd at wyth oed.

## Gwella ansawdd

6.10 Er fod Codau Ymarfer a rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n weithredol i rai dulliau o ddarpariaeth chwarae, cymharol ychydig o sylw a roddwyd i asesu ansawdd cyflwyniad gwasanaeth chwarae, a pha mor dda y mae'n ateb anghenion datblygu plant. Caiff hyn ei drafod yn awr gan Brosiect Asesu Ansawdd Chwarae Cymru, a drafodir ym Mhennod 2.

6.11 Byddai polisi chwarae sirol a gytunir gan yr holl ddarparwyr chwarae o fewn awdurdod yn gymorth i sicrhau fod ethos a gwerthoedd chwarae mynediad agored yn cael eu deall a'u hymarfer gan bawb sy'n ymwneud â'r maes hwn.

6.12 Mae llawer o brosiectau chwarae bach a sefydliadau ledled Cymru nad ydynt yn cael fawr, neu ddim, cefnogaeth, Medrai ffora neu rwydweithiau chwarae berfformio swyddogaeth bwysig wrth gynorthwyo grwpiau o'r fath i gynnig darpariaeth ansawdd uchel.

## Ymgynghoriad a phartneriaeth

6.13 Amlygodd yr adolygiad bwysigrwydd strwythurau ar gyfer ymgynghori a chyd-gynllunio darpariaeth chwarae, a'r angen i ganfod ffyrdd i gynnwys pawb gyda diddordeb mewn chwarae. Roedd cefnogaeth i'r syniad o 'ladmerydd chwarae' lleol ym mhob awdurdod, ond er mwyn i'r swydd hon fod yn effeithlon byddai angen iddi weithredu o fewn strwythur clir ac ymrwymiad awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth chwarae.

6.14 Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig mewn cyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored. Dim ond i gyrff gwirfoddol y mae rhai ffynonellau o grantiau ar gael, ac ystyriai cyrff cyllido yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr adolygiad fod y sector gwirfoddol yn 'torri tir newydd a blaengar yn ei ddynesiad at wasanaethau ac ateb anghenion cymunedol'. Eto mae'r graddau y mae awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

6.15 Gyda digon o adnoddau a chefnogaeth, gall ffora chwarae roi dull o gynnwys pob parti sydd â diddordeb. Medrodd y ffora hynny yn yr arolwg gyda gweithiwr cyflogedig gymryd rhan fwy effeithlon wrth ddosbarthu grant Chwarae 2000 a sicrhau yr ymgynghorid â phob sefydliad perthnasol. Ond roedd ffora eraill wedi diflannu, neu'n cael trafferth i oroesi.

## Cyllid anniogel

6.16 Mae mater cyllid yn gonsýrn gwirioneddol i ddarparwyr chwarae statudol a gwirfoddol. Mae cyllid anniogel yn ei gwneud yn anodd i fabwysiadu dynesiad strategol, tymor hir at ddatblygu darpariaeth chwarae, a chreu'r isadeiledd angenrheidiol i gefnogi darparwyr chwarae.

6.17 Byddai cyllid parhaol gyda meini prawf yn sicrhau fod gweithgareddau a phrosiectau wedi eu cynllunio'n dda, yn hytrach nag yn ymateb ad hoc i gyllido unwaith-yn-unig. Pe darperir cyllid dros gyfnod hwy (o leiaf 3 i 5 mlynedd), byddai'n haws denu arian cyfatebol, sicrhau gwasanaeth rhagweithiol a galluogi mwy o blant i gyrchu cyfleoedd chwarae ansawdd uchel.

6.18 Roedd y cynllun grant Chwarae 2000 yn hwb gwerthfawr i gyfleoedd chwarae mynediad agored, ond byddai wedi bod hyd yn oed yn fwy defnyddiol pe byddai mwy o amser wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghori â phartïon â diddordeb a darparu cynigion ar y cyd. Mae amseru cymorth grant yn arbennig o bwysig ar gyfer darparwyr chwarae, llawer ohonynt yn neilltuol o weithgar yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

## Casgliad

6.19 Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu fod chwarae o fantais i blant, teuluoedd a chymdeithasau. Yng ngeiriau Chris Smith, Ysgrifennydd Gwladol Celfyddydau, Cyfryngau a Chwaraeon yn 1998, "Play is not only important to the quality of life of children, it is of great importance for the country's future, to the creative industries and for the economy'. Yng Nghymru, mae'r Cynulliad eisoes wedi cymryd y blaen wrth ddyrannu cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored drwy'r grant Chwarae 2000, ac wrth gomisiynu'r adolygiad hwn. Mae angen gwirioneddol yn awr i adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddatblygu dynesiad strategol at hyrwyddo cyfleoedd chwarae i holl blant Cymru.

## ARGYMHELLION

### Argymhelliad 1

Dylai'r Cynulliad sefydlu grwp oll-bleidiol i ystyried sut i ddatblygu fframwaith polisi cydlynus ar chwarae i Gymru, ac i sefydlu lle dylai'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth chwarae fod.

### Argymhelliad 2

Dylai pob awdurdod gael eu hannog i ddatblygu polisi a strategaeth chwarae mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, wedi eu hanelu at sicrhau y caiff

Erthygl 31 Confensiwn y Deyrnas Unedig ar Hawliau'r Plant ei weithredu'n llawn.

**Argymhelliad 3**

Dylid parhau â'r gynsail o neilltuo cyllid yn benodol i ddatblygu darpariaeth chwarae mynediad agored, yn amodol ar ganlyniadau trafodaethau'r grwp polisi ollbleidiol. Profodd dyraniad drwy'r Partneriaethau Plant a Ieuenctid yn rhesymol lwyddiannus.

**Argymhelliad 4**

Bydd cyllid yn fwy effeithlon wrth ddatblygu dynesiad strategol at chwarae os medrir ei warantu am fwy na blwyddyn ar y tro. Beth bynnag, mae angen ei gyhoeddi gyda digon o amser ar gyfer ymgynghori a chynllunio, a gyda meini prawf clir ar gyfer y mathau o ddarpariaeth sy'n gymwys.

**Argymhelliad 5**

Mae angen cryfhau'r isadeiledd ar gyfer cefnogi a datblygu darpariaeth chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae Chwarae Cymru mewn sefyllfa dda i gynorthwyo gyda'r dasg hon, gan i'r corff weithio'n agos gyda darparwyr chwarae statudol a gwirfoddol yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Byddai cynyddu'r cyllid y mae'r corff yn ei dderbyn gan y Cynulliad yn ei alluogi i ehangu ei weithgareddau yn y maes hwn.

**Argymhelliad 6**

Dylai'r Cynulliad drafod mater gwella ansawdd mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, ac ystyried os y medrir argymhell y fframwaith Asesu Ansawdd sy'n cael ei ddatblygu gan Chwarae Cymru fel y sail ar gyfer gwella safonau'n genedlaethol. Dylid hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r angen i ddatblygu safonau priodol ar gyfer rheoleiddio darpariaeth chwarae a gweithwyr chwarae, mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau megis Chwarae Cymru.

**Argymhelliad 7**

Os yw'r Cynulliad angen gwybodaeth ar wariant ar chwarae, bydd angen iddo roi diffiniadau o dermau fel 'chwarae mynediad agored' a chyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar y penawdau cyllideb sydd eu hangen, fel y darperir gwybodaeth ar ffurf gyson.

## Cyfeiriadau

Fforwm Chwarae Gyfan/Chwarae Cymru (1995) *Côd Ymarfer Gwaith Chwarae*. Caerdydd. Fforwm Chwarae Cymru Gyfan.

Children's Play Council (1998) *The New Charter for Children's Play*. Llundain: National Children's Bureau

Goleman, D. (1996) *Emotional Intelligence: why it can matter more than IQ*. Llundain: Bloomsbury Publishing

Hampshire, R. a Wilkinson, S. (1999) *Youth Shelters and Sports Systems: A good practice guide*. Llundain: Thames Valley Police

Hill-Tout, J., Lindsell, S. a Pithouse, A. (1995) *Evaluation of The Venture, Caia Park, Wrexham*. Caerdydd: Ysgol Astudiaethau Cymdeithasol a Gweinyddol, Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd

Hughes, B. (1999) 'Does Playwork have a neurological rationale?' yn *The proceedings of PlayEducation '99 Part One*. Ely: PlayEducation

Huttenmoser, M. a Degen-Zimmerman, D. 1995) *Lebensraume fur Kinder, Nationale Forschungsprogramm 'Stadt und Verkehr'* NFP 25

Mental Health Foundation (1999) *Bright Futures: Promoting children and young people's mental health*. Llundain: Mental Health Foundation

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Cynllun Grant Chwarae 2000: llythyr at Brif Weithredwyr ac ati, 14 Ebrill 2000*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Mynegai Difreintiad Lluosog Cymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol

Statham, J., Holtermann, S. a Stone, M. (1996) *Gofal Plant yng Nghymru: Archwiliad 1996.* Caerdydd: Chwarae Teg

## Atodiad 1: TROSOLWG O GYNIGION GRANT CHWARAE 2000

(ffigurau dyraniad mewn cromfachau)

**Abertawe** (£ 85,462) Cyllid ar gyfer cynlluniau:

- Cynllun grant bychan ar gyfer grwpiau cymunedol gwirfoddol
- Gwerthusiad o ddarpariaeth gyfredol maes chwarae
- Gwelliant cyfalaf i gyfleusterau meysydd chwarae
- Darpariaeth cyfleusterau chwarae symudol
- Datblygu gwasanaeth adnoddau benthyca ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Chwarae

bresennol
- Darpariaeth cyfleoedd chwarae integredig.

**Blaenau Gwent** (£24,688) Prif gynigion:

- Cynlluniau chwarae yn seiliedig mewn canolfannau hamdden a datblygu amrediad o weithgareddau all-estyn mewn 8 ardal yn y Fwrdeistref.
- Ehangu gweithgareddau o fewn cynllun chwarae anghenion arbennig gwasanaethau cymdeithasol. Gweithgareddau chwarae integredig dros wyliau’r haf. Defnyddiwyd cyllid ar gyfer staff gofal ychwanegol.

**Bro Morgannwg** (£ 40,839) Cynlluniau'n cynnwys darparu cynlluniau chwarae haf, offer chwaraeon ar gyfer sefydliad gwirfoddol lleol yn darparu gweithgareddau adloniant i blant anfanteisiedig a chostau staff.

**Caerdydd** (£130,223)

Amrywiaeth eang o gynlluniau. Y prif feysydd a ddynodwyd:

- Cydlynu cynllun ac ymchwil a fydd yn cynnwys cynnal archwiliad o bob chwarae mynediad agored yng Nghaerdydd, cydlynu, monitro a gwerthuso’r holl gyfan.
- Chwarae Dydd 2000 – prosiectau ar draws Caerdydd yn dathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol.

Prosiectau eraill amrywiol yn cynnwys darpariaeth gweithwyr chwarae, gwelliannau amgylcheddol, offer, gofod chwarae a gweithdai gweithgaredd gyda blaenoriaeth i ardaloedd a ddynodwyd fel bod fwyaf mewn angen.

**Caerffili**(£ 67,508) Cynnig yn amcanu i gynyddu mynediad i bob plentyn a pherson ifanc (yn cynnwys y rhai mewn angen a’r rhai y gofelir amdanynt) i gynlluniau chwarae haf presennol. Hefyd yn amcanu i ddarparu cysgod ieuenctid peilot a chyfleuster chwaraeon cysylltiedig i gynnig man cyfarfod mynediad agored i bobl ifanc.

**Casnewydd** (£58,687) Elfennau’r cynnig oll wedi’i hanelu at y cymunedau mwyaf difreintiedig:

- Cynlluniau chwarae haf – cynlluniau chwarae ychwanegol ar gyfer rhai 8-12 oed
- Clybiau chwarae gwyliau – cynlluniau chwarae hanner tymor ar gyfer rhai 8-12 oed
- Offer chwarae
- Digwyddiadau chwarae
- Adnewyddu ardal chwarae
- Hyfforddiant
- Wythnos Chwarae 2000

Cydlynu – Cynorthwy-ydd prosiect i hyrwyddo darpariaeth chwarae ansawdd uchel

**Castell Nedd Port Talbot** (£ 50,346) Cynigion yn cynnwys:

- Ardal chwarae ar lan y môr yn Aberafan – cymryd lle darpariaeth annigonol gyfredol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant anabl
- Darpariaeth mewn canolfan gymunedol – ardal chwarae wedi'i ffensio, gyda wyneb diogelwch chwarae
- Cynlluniau chwarae haf – mewn ardaloedd ar draws y fwrdeistref lle mae'r lefelau difreintiad uchaf
- Tripiau dydd cynllun chwarae haf – cymhorthdal, ychwanegol yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy a felly yn fwy hygyrch
- Cynlluniau chwarae integredig – ehangu gwasanaeth presennol i gyrraedd mwy o blant anabl.

**Ceredigion** (£ 14,625) – Dyraniad i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiad hyfforddi ar gyfer darparwyr cynllun chwarae ac fel cyfraniad tuag at gyfarpar i fws chwarae. Defnyddiwyd y gweddill i roi cyfarpar mewn parc sglefrio sy'n cael ei gynllunio gydag ymwneud pobl ifanc a'r gymuned leol yn Aberystwyth.

**Conwy** (£27,937) Cynlluniau'n cynnwys:

- Penodi cydlynydd chwarae i ddatblygu rhwydwaith chwarae yn y Sir.
- Uwchraddio cyfleusterau ar gyfer clybiau allan o'r ysgol yn yr ardal (mewn cysylltiad â Chwarae Teg)
- Darparu bws hwyl a chynlluniau chwarae haf (mewn cysylltiad â NCH)
- Ehangu'r gwasanaeth cyfredol a ddarperir gan sefydliad gwirfoddol i gynnwys cyfleuster galw heibio ar gyfer rhai 11-15 oed.

**Gwynedd** (£ 30,134) Defnyddiwyd cyllid i ddarparu:

- Secondiad ar gyfer Cydlynydd Chwarae ar gyfer gwyliau'r haf.
- Cynlluniau chwarae yn seiliedig o amgylch canolfannau hamdden yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a wasanaethir gan yr awdurdod.
- Hyfforddiant ar gyfer staff

**Merthyr Tudful** (£ 24,595) Gweithgareddau'n cynnwys:

- Prosiect chwarae symudol
- Hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- Darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r haf a phenwythnosau
- Offer cyfalaf ar gyfer chwarae – sefydlu llyfrgell chwarae
- Digwyddiadau wythnos chwarae 2000
- Cyfrannu at gostau rheolaeth cynllun

**Pen-y-bont ar Ogwr**(£ 44,543) Cynigion yn seiliedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Sir. Adnewyddwyd ardal chwarae mewn dwy ardal ac un fenter cynllun chwarae wedi ei seilio mewn ardal nad oes ganddi unrhyw ddarpariaeth chwarae haf arall. Bydd y diwethaf yn cynnwys mynd â plant ar dripiau addysgol a dydd i leoedd na fyddent fel arfer yn cael cyfle i ymweld â hwy.

**Powys** (£28,100) Cynigion yn seiliedig ar amcanion Strategaeth Chwarae Powys:

- Gweithwyr Datblygu Strategaeth Chwarae
- Rhwydwaith Chwarae Maesyfed – defnyddio grantiau ar gyfer cyflogau ac ar-gostau cysylltiedig Gweithiwr Datblygu Sir Faesyfed
- Pecyn adnoddau cynllun chwarae

Cronfa datblygu chwarae – i gefnogi cynlluniau chwarae mewn cymunedau difreintiedig. Gwahanol fathau o gynlluniau yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau, adnoddau symudol, offer, hyfforddiant a chludiant i blant mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

**Rhondda Cynon Taf** (£ 83,385) - cymeradwywyd cynigion yn cynnwys prosiectau yn cyrraedd tua 5,000 o blant a gyflwynir drwy gynlluniau chwarae gwyliau, clybiau chwarae tu allan i'r ysgol a meysydd chwarae.

**Sir Benfro** (£ 32, 735) Cynigion wedi'u hanelu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y Sir:

- Cyfarpar ar gyfer bws chwarae
- Cynnal gwyl bêl-droed (mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru) a gweithdai gyda mynediad ar gyfer hyd at 150 o blant, wedi'i hanelu at rai 8-14 oed
- Clybiau traeth ieuenctid – dysgu diogelwch traeth a dwr yn ogystal â darparu gweithgareddau chwaraeon i hyrwyddo chwarae cydweithredol.
- Hyfforddi staff a gwirfoddolwyr – fydd yn hyrwyddo cynaliadwyedd
- Gwaith cymunedol – Cyllid a ddatblygwyd i'w ddefnyddio, mewn ymgynghoriad gyda grwpiau cymunedol lleol a chynghorau cymuned, ar offer cyfalaf, gweithgareddau chwarae a chefnogaeth i gymunedau lleol yn ymwneud ag Wythnos Chwarae 2000.

**Sir Ddinbych**(£ 27,122) Cynllun yn cynnwys:

- Cyflogi ymchwilydd i gynnal astudiaeth feintiol ac ansoddol o offer chwarae a chyfleoedd o fewn Sir Ddinbych.
- Cydlynu a chyflwyno digwyddiadau chwarae mynediad agored ym mis Awst yn ardaloedd Rhyl a Dinbych uchaf. Annog sefydliadau eraill ac aelodau'r gymuned i drefnu digwyddiadau mewn rhannau eraill o'r sir.

**Sir Fynwy** (£ 18,724) Cynlluniau chwarae gwyliau haf a drefnwyd gan y Cyngor Sir. Cyllid i gynnwys staffio/hyffordi, offer a chostau cludiant.

**Sir y Fflint** (£ 42,228) Defnyddiwyd cyllid tuag at:

- Datblygiad strategol Polisi Chwarae Sir y Fflint yn ystyried os yw’r ddarpariaeth chwarae cyfredol yn ateb anghenion plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig o Sir y Fflint
- Grantiau penodol i gefnogi darpariaeth chwarae statudol a gwirfoddol dros yr haf.
- Archwiliad o safonau iechyd a diogelwch mewn cyfleusterau chwarae cyfredol.

**Sir Gaerfyrddin** (£ 44,836) Mae’r cynlluniau a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth yn cynnwys offer sefydlog ar gyfer meysydd chwarae ac offer chwarae, darpariaeth cynlluniau chwarae gofal, a chostau gofal plant sydd eu hangen i sicrhau integreiddiad plant gydag anghenion arbennig mewn darpariaeth chwarae mynediad agored.

**Torfaen** (£ 35,671) Targedu cynigion at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig:

- Gwella ardaloedd chwarae - gweithio mewn cysylltiad gyda rhai dan 12 a rhai yn eu harddegau
- Sefydlu 'Clybiau Chwarae' neu 'Glybiau Ieuenctid Iau'
- Gweithiwr Datblygu Chwarae

**Wrecsam** (£ 39,774) Cynlluniau'n cynnwys darpariaeth offer cynlluniau chwarae, costau hyfforddiant staff, gweithio gyda phobl ifanc i gynllunio cyfleuster chwarae a chyfraniad tuag at ardal chwarae mynediad agored ar gyfer stad dai.

**Ynys Môn** (£17,857) Defnyddir rhan fechan o’r cronfeydd ar gyfer cwrs hyfforddi mewn diogelwch meysydd chwarae ac archwiliad o safleoedd meysydd chwarae yn yr ardal. Bydd y cyllid cynllun chwarae yn cefnogi amrediad o gynlluniau:

- Amserau chwarae integredig yn yr haf
- Dyddiau hwyl (mewn cysylltiad â’r NCH)
- Darpariaeth bws chwarae (mewn cysylltiad â’r NCH)
- Clybiau Ar ôl Ysgol (mewn cysylltiad â Chwarae Teg)
- Cae chwarae wedi’i sefydlu a rhoi cyfarpar yno mewn rhan penodol o Gaergybi.